

2018

**Cynllun Datblygu Lleol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2021**

(Mabwysiadwyd 23 Tachwedd 2010)

7^{fed} Adroddiad Monitro Blynyddol 2018

Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018

Rhian Kyte
Pennaeth Adfywio a Chynllunio



1. Cyflwyniad	02	8 Casgliadau'r Asesiad	24
2 Crynodeb Gweithredol	03	A yw Amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni?	
3 Newidiadau cyd-destunol	06	A oes unrhyw bolisiau nad ydynt yn cael eu gweithredu?	
Fframwaith Datblygu Cenedlaethol		9 Argymhellion	32
Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn		Argymhellion ynghylch camau gweithredu i sicrhau y caiff polisiau sy'n methu eu gweithredu.	
Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r iaith Gymraeg		A ddylid adolygu'r Cynllun Mabwysiedig?	
Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol		Atodiad 1	
Nodyn Cyngor Technegol 1: Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai		Dangosydd Gorfodol - Nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd a'r cyflenwad tir ar gyfer tai	39
Bargen Prifddinas Ranbarth Caerdydd		Atodiad 2	
Llythyron Ysgrifennydd y Cabinet ar CDLlau a CDSau		Trosolwg o waith monitro'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad Cynaliadwyedd	40
Diwygio Llywodraeth Leol		Atodiad 3	
I Gloi		Polisiau a gyrhaeddodd y trothwy	41
4 Gwaith Monitro'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad Cynaliadwyedd	12	Atodiad 4	
Gwaith monitro'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol - canlyniadau 2018		Perfformiad ar sail amcanion y CDLI	48
I Gloi		Atodiad 5	
5 Monitro Polisiau'r CDLI	18	Taliadau a Gwariant Ardoll Seilwaith Cymunedol Cyngorau Lleol	53
6 Dangosyddion Gorfodol	20	Atodiad 6	
7 Ardoll Seilwaith Cymunedol	21	Monitro Dyraniadau'r CDLI	54

1 Cyflwyniad

- 1.1** Cafodd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2021 ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar 23 Tachwedd 2010. Ar ôl mabwysiadu ei CDLI mae gan y Cyngor rwymedigaeth statudol dan Adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i lunio Adroddiad Monitro Blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- 1.2** Mae'r ddogfen hon, sef y seithfed Adroddiad Monitro Blynyddol, yn seiliedig ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018 ac mae gofyn iddi gael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Hydref 2018.
- 1.3** Prif nod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yw asesu i ba raddau y mae Strategaeth y CDLI a Pholisïau'r Strategaeth yn cael eu cyflawni. Felly, mae gan yr adroddiad ddwy brif swyddogaeth: yn gyntaf, ystyried a yw'r polisiau a nodir yn y broses fonitro'n cael eu gweithredu'n llwyddiannus; ac yn ail, ystyried y cynllun yn ei gyfanrwydd o'i gymharu ar holl wybodaeth a gasglwyd, er mwyn penderfynu a oes angen cynnal adolygiad llawn neu rannol o'r cynllun.
- 1.4** Daeth Adroddiad Monitro Blynyddol 2013 i'r casgliad bod angen adolygiad o'r CDLI. Dechreuodd yr adolygiad o'r Cynllun

Mabwysiedig ac fe'i symudwyd yn ei flaen at y cam Adneuo cyn i'r Cyngor dynnu'r Adolygiad yn ôl yn ffurfiol yn Hydref 2016.

- 1.5** O ystyried yr uchod, bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn ymdrin â'r canlynol:
- Crynodeb o'r prif ganfyddiadau o ran y gwaith monitro sy'n ymwneud â'r Aseiad Amgylcheddol Strategol/yr Arfarniad Cynaliadwyedd, ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018;
 - Crynodeb o'r prif ganfyddiadau o ran Polisiau'r Strategaeth, ar gyfer y cyfnod monitro rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018;
 - Y dangosyddion statudol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru;
 - Y diweddaraf am weithredu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol; a'r
 - Camau gweithredu sydd i'w cymryd.



2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Mae'n ofyniad statudol i'r Cyngor gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru, sy'n monitro a yw'r CDLI yn cael ei weithredu'n llwyddiannus ai peidio. Diben cyffredinol yr Adroddiad Monitro Blynyddol yw nodi a yw Strategaeth y CDLI neu unrhyw rai o bolisiau'r Strategaeth yn methu a chael eu gweithredu ac, os felly, nodi'r camau i fynd i'r afael â hynny.

2.2 Dyma'r seithfed Adroddiad Monitro Blynyddol sydd wedi'i baratoi ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2021, ac mae'n monitro'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol 2018 i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2018

2.3 Mae gwaith monitro'r cynllun ar gyfer 2017/18 yn dangos

- Bod wyth o bolisiau'r Cyngor wedi cyrraedd y trothwy eto, ar ôl cyrraedd y trothwy yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2017 (*SP4 Strategaeth Aneiddiadau; SP5 Ffiniau Anheddau, SP10 Gwarchod y Dreftadaeth Naturiol; SP14 Holl ofynion o ran Tai, SP15 Targed Tai Fforddiadwy, SP16 Rheoli Twf Cyflogaeth, SP18 Gwarchod y Rhwydwaith Hamdden Strategol a SP20 Hierarchaeth Ffyrdd*);
- Mae 2 bolisi wedi cyrraedd y trothwy ar ôl bwlch (*SP3 Datblygu'r Coridor Cysylltiadau Deheuol a SP17 Hyrwyddo Datblygiad Masnachol*);
- Ml wnaeth 1 polisi gyrraedd y trothwy am y tro cyntaf (*SP19 Gwelliannau i'r Seilwaith Trafnidiaeth*).

2.4 Mae Adroddiad Monitro Blynyddol 2018 hefyd yn cynnwys canlyniadau gwaith monitro sy'n ymwneud a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad Cynaliadwyedd, sy'n ofynnol yn ôl y Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol a'r canllawiau cenedlaethol. Canfu'r gwaith monitro sy'n ymwneud a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad Cynaliadwyedd, sydd wedi'i gynnwys ym Mhennod 4 Adroddiad 2018, fod newid tuag at ganlyniadau ychydig yn llai positif na mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, o asesu'r canlyniadau ar sail blwyddyn mabwysiadu'r cynllun, h.y. 2010, gwelir symudiad arwyddocaol tuag at ganlyniadau positif sy'n arwain at effeithiau positif i'r amgylchedd cyfan.

2.5 Mae hefyd yn ofynnol i Adroddiad 2018 gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud a'r 12 o ddangosyddion gorfodol, a gaiff eu pennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r dangosyddion hynny wedi'u cynnwys ym Mhennod 6.

2.6 Mae trosolwg o ddata monitro'r CDLI ar gyfer Adroddiad 2018 yn taflu goleuni diddorol ar y modd y mae'r CDLI wedi'i weithredu dros y cyfnod monitro. Mae'r canlynol o ddiddordeb arbennig ar gyfer 2018:

- Cynyddodd y gyfradd adeiladu tai flynyddol eleni o 187 i 284 (seiliedig ar ffigurau Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) 2017)
- Cynyddodd y cyflenwad tir ar gyfer tai o 1.5 mlynedd i 2.1 mlynedd gan ddefnyddio'r dull gweddilliol, yn dilyn cymeradwyo nifero geisiadau tai sylweddol. (*Dylid nodi bod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn defnyddio'r data o*

Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai y flwyddyn flaenorol, oherwydd y ffaith bod y Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn cael eu cytuno'n gyffredinol ar ôl yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Felly, mae Adroddiad Monitro Blynyddol 2018 yn defnyddio gwybodaeth Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2017 sy'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Mawrth 2017. [Cytunwyd ar Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai JHLAS 2018 ac mae'r cyflenwad tir ar gyfer tai wedi codi ychydig i 2.3 mlynedd. Fodd bynnag, mae hyn yn dal yn llawer is na'r gofyniad 5 mlynedd. Bydd y ffigur hwn yn cael ei adlewyrchu yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2019]

- Cododd cyfartaledd pris tŷ ar gyfer y fwrdeistref sirol 7% pellach o £121,879 i £129,928.
- Cynyddodd y gyfradd diweithdra flynyddol ychydig o 5.2% i 6.2%.
- Ar ôl cynnydd dilynol yn nifer y preswylwyr sydd mewn cyflogaeth ers mabwysiadu'r cynllun, cafwyd gostyngiad bychan eleni o 82,100 i 80,700.
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio i 25.7 hectar o dir cyflogaeth.
- O'r prif ganol trefi gwelodd Coed Duon, Rhisga-Pontymister a Bargod ostyngiad mewn cyfraddau unedau gwag er bod unedau gwag ym Margod yn dal dros 20%. Gwelodd Ystrad Mynach a Chaerffili gynnydd bychan mewn cyfraddau unedau gwag.
- Gostyngodd nifer yr ymwelwyr â'r prif drefi oedd a chownteri mesur niferoedd ymwelwyr (Caerffili, Coed

Duon, Bargod), Ond roedd hyn yn rhannol oherwydd methiant cownteri mesur niferoedd am gyfnod o chwech wythnos yn ystod y cyfnod monitro.

- Cafwyd cynnydd pellach mewn niferoedd ymwelwyr i gyfleusterau hamdden gwledig i 1.45 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn, ond mae lefel bodlonrwydd cwsmeriaid wedi gostwng o 87% i 75%.

2.7 Mae Adroddiad 2018 hefyd yn cynnwys y datganiad monitro blynyddol ar gyfer y modd y mae'r Cyngor yn gweithredu ei Ardoll Seilwaith Cymunedol. Dyma'r drydedd flwyddyn i'r Adroddiad Monitro Blynyddol gynnwys y datganiad hwn. Nododd y gwaith o fonitro'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer 2018 fod £330,754 wedi'i gasglu mewn refeniw, a bod ychydig o dan £46,600 wedi'i drosglwyddo i Gynghorau Lleol (Cynghorau Tref a Chymuned) ac mae ychydig dros £16,500 wedi'i ddefnyddio i dalu costau paratoi a gweithredu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Mae ychydig dros £480,000 yn weddill yng nghronfa'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i gynorthwyo i ariannu seilwaith priodol.

2.8 Mae'r pwysau sydd ar y Cyngor i ail-ddechrau gwaith ar CDLI Newydd yn parhau'n gryf, oherwydd:

- Mae dyletswydd statudol i symud at ei adolygu ar ôl pedair blynedd;
- Mae'r cyfnod o amser ers Adroddiad Monitro Blynyddol 2013 yn nodi'r angen i baratoi cynllun newydd;
- Y risg gynyddol na fydd gan y fwrdeistref sirol ddarpariaeth cynllun datblygu ar ôl 2021;

- Yr angen brys i gynyddu'r cyflenwad o dir ar gyfer tai; a
- Y tebygolrwydd o ganiatáu mwy o ddatblygiadau heb eu cynllunio yn dilyn apêl yn y tymor byr; ac
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol gyda CDLI sy'n diweddu yn 2021 yn eu gwahodd i baratoi cynlluniau ar y cyd gydag awdurdodau cyfagos.

2.9 Fodd bynnag, gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar Gynllun Datblygu Strategol yn y flwyddyn ddiwethaf, gyda chytundeb gan y Cabinet Rhanbarthol i symud ymlaen a chynhyrchu cyfres o bapurau trafod i geisio cytundeb ar faterion allweddol sy'n ymwneud â strategaeth gynllunio, cwmpas, cynnwys, amserlen ac adnoddau. Y gobaith erbyn diwedd y flwyddyn fonitro gyfredol (2018-19) yw y bydd pob un o Gynghorau llawn y rhanbarth yn cymeradwyo'r penderfyniad i symud ymlaen, ynghyd â'r manylion perthnasol.

2.10 Rhagwelir y bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn mynd i'r afael â materion fel twf poblogaeth ac aelwydydd, safleoedd tai a chyflogaeth strategol, trafniadaeth, manwerthu, mwynau a gwastraff. Unwaith y bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn barod ar gyfer y rhanbarth, dim ond y materion nad ydynt yn strategol y bydd yn rhaid i'r CDLlau dilynol (CDLlau ysgafn) eu cynnwys ac felly byddant yn denuach ac yn fwy cryno, gan leihau amser paratoi a chostio llai.

2.11 Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn nodi'r strategaeth ar gyfer y rhanbarth, ac mae'n hanfodol bod paratoi CDLI, naill ai'n unigol

neu ar y cyd ag awdurdodau cyfagos, yn cael ei wneud yn unol â'r Cynllun Datblygu Strategol. Mae pryder y gallai paratoi CDLI llawn cyn Cynllun Datblygu Strategol yn gwrthdaro gyda'r strategaeth ranbarthol ar leoliad twf. At hynny, mae pryderon sylweddol ynghylch yr adnoddau sydd ar gael yn y rhanbarth i ddatblygu CDLI, hyd yn oed ar lefel ar y cyd, a Chynllun Datblygu Strategol.

2.12 Ar y sail yma, byddai paratoi CDLI ysgafn ar y cyd â'r paratoad yn cynnig yr ateb gorau o ran cyflawni amcanion rhanbarthol a defnyddio adnoddau

2.13 Mae Adroddiad Monitro Blynyddol 2013 ac Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi hynny wedi nodi'n glir bod angen paratoi cynllun llawn newydd. Bydd canfyddiadau'r adroddiadau hyn, ynghyd â'r dystiolaeth ddiweddar, yn ffurfio rhan o sail y dystiolaeth i baratoi unrhyw gynllun yn y dyfodol, boed yn CDLI Newydd neu'n rhan o Gynllun Datblygu Strategol. Gyda CDLI ysgafnach.

2.14 Mae Adroddiad Monitro Blynyddol 2018 yn dod i'r casgliad canlynol ac yn argymhell y canlynol:

A1 Dylid parhau i wneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni'r rhan fwyaf o'r Cynllun Datblygu Mabwysiedig, sy'n sicrhau manteision i'r amgylchedd.

A2 Dylai'r Cyngor barhau i weithio tuag at baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol yn gynnar ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

A3 Bydd angen i'r Cyngor barhau i fynd i'r afael â'r diffyg yn y cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai drwy weithredu'n rhagweithiol, a fydd yn cynnwys.

- Ystyried cynigion ar gyfer datblygiadau preswyl newydd ar sail eu rhinweddau cynllunio cymharol fesul achos, a rhoi sylw dyledus i'r angen i gynyddu'r cyflenwad o dir ar gyfer tai'n unol â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol;
- Lobio Llywodraeth Cymru i sefydlu systemau ariannu i gynnig cymhellion ar gyfer safleoedd mewn ardaloedd llai hyfyw a hybu'r gwaith o adfer safleoedd tir llwyd sy'n addas i'w datblygu;
- Defnyddio'r model ariannu arloesol i gyflwyno safleoedd sydd â phroblemau hyfywedd, sy'n eiddo i'r Cyngor;
- Lobio Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau i'r broses sy'n ymwneud ag argaeledd tir ar gyfer tai.
- Y Bwrdd Prosiect Adfywio yn nodi cynlluniau y gellid manteisio ar gyfleoedd ariannu ar gyfer cyflawni prosiectau adfywio, gan gynnwys tai.

3. Newidiadau Cyd-destunol

- 3.1** Mae angen ystyried newidiadau allanol yn rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol, ac ystyried pa effaith y mae'r newidiadau hynny'n ei chael ar y modd y caiff polisiau'r CDLI eu gweithredu. Felly, trwy geisio deall sut mae ffactorau allanol wedi effeithio ar gyflwyno'r CDLI, bydd y Cyngor yn cael gwell dealltwriaeth o'r hyn y gall ei wneud i hwyluso gweithrediad y cynllun.
- 3.2** Mae'r adran ganlynol yn edrych yn benodol ar y ffactorau allanol sydd wedi cael, neu a allai gael, dylanwad ar weithredu'r cynllun ac felly ar ddatblygiad ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i bolisi neu ddeddfwriaeth genedlaethol; amodau allanol; ac ystyriaethau lleol. Ymdrinnir â'r newidiadau allweddol isod.

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

- 3.3** Mae gwaith ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wedi cychwyn gan Lywodraeth Cymru. Y bwriad yw y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn gosod fframwaith defnydd tir 20 mlynedd i Gymru, ac yn:
- nodi lle mae angen twf a seilwaith sy'n bwysig yn genedlaethol a sut y gall y system gynllunio - yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol – gyflenwi hyn
 - darparu cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a chefnogi'r penderfynu ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol
 - gorwedd ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi polisiau cynllunio Llywodraeth Cymru a pharhau i ddarparu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir

- cefnogi strategaethau economaidd, trafndiaeth, amgylcheddol, tai, ynni a diwylliannol cenedlaethol a sicrhau eu bod yn gallu cael eu cyflenwi drwy'r system gynllunio
- cael ei adolygu bob 5 mlynedd

3.4 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y Materion, Opsiynau a'r Opsiwn a Ffafriar ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar 30 Ebrill 2018. Gan fod yr ymgynghoriad hwn wedi dechrau y tu allan i'r cyfnod monitro, bydd cynnwys a goblygiadau posibl hyn yn cael eu hystyried yn yr Adroddiad Monitro Blynnyddol 2019.

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10)

- 3.5** Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi polisiâu cynllunio defnydd tir cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac yn darparu'r polisi i lywio polisiâu a dyraniadau defnydd tir mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae hefyd yn ystyriaeth berthnasol i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Cyhoeddwyd Argraffiad 9 o PCC ym mis Tachwedd 2016 a thrafodwyd goblygiadau polisi hyn yn adroddiad y llynedd.
- 3.6** Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddrafft ymgynghorol o Argraffiad 10 PCC. Mae'r fersiwn drafft wedi'i hailstrwythuro, gan symud i ffwrdd o benodau pwnc-benodol i themâu polisi sy'n deillio o'r nodau llesiant a osodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n nodi 'Creu Lleoedd' fel cysyniad canolog ar gyfer darparu lleoedd cynaliadwy. Er bod drafft PCC 10 yn cadw elfen sylweddol o'r cynnwys polisi a gynhwysir yn Argraffiad 9, mae nifer o ddatganiadau polisi newydd ar draws ystod

o feysydd polisi ac mae'r ymgynghoriad yn ceisio ymateb rhanddeiliaid ar hyn.

3.7 Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Mai 2018 ac mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried yr ymatebion a ddaeth i law. Bydd goblygiadau unrhyw newidiadau polisi yn y fersiwn derfynol o Argraffiad 10 yn cael eu hystyried mewn Adroddiadau Monitro Blynnyddol yn y dyfodol. PCC Argraffiad 9 fydd y ddogfen bolisi defnydd tir allweddol ar gyfer gwneud penderfyniadau hyd nes y bydd Argraffiad 10 yn ei disodli.

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2017)

- 3.8** Cyhoeddwyd adolygiad i Nodyn Cyngor Technegol 20 ar Gynllunio a'r Iaith Gymraeg ym mis Hydref 2017, gan ddisodli fersiwn Hydref 2013 o'r ddogfen. Pwrpas y Nodyn Cyngor Technegol hwn yw rhoi arweiniad ar sut y gellid rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yn y system gynllunio ac wrth gydymffurfio â gofynion cynllunio a deddfwriaeth berthnasol arall.
- 3.9** Mae'r Nodyn Cyngor Technegol wedi'i ddiweddarau yn rhoi cyngor i awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr a chymunedau ar sut y gall y system gynllunio gefnogi a gwarchod yr iaith. Mae'n annog CDLLau i hyrwyddo lleoedd lle gall bywyd cymunedol ddigwydd yn y Gymraeg. Cyflawnir hyn trwy sicrhau bod gan bobl ddewis o dai, swyddi a bywyd cymdeithasol bywiog yn eu cymuned. Mae datblygiad newydd yn hanfodol i'r iaith trwy gynnig cyfle i siaradwyr Cymraeg presennol a siaradwyr Cymraeg y dyfodol i fyw a gweithio mewn cymunedau Cymraeg sy'n ffynnu, ond bydd angen rheoli hyn yn briodol.

3.10 Mae'r iaith Gymraeg eisoes yn rhan annatod o'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad Cynaliadwyedd y CDLI, fel rhan o'r amcan "i ddiogelu hunaniaeth ddiwylliannol y fwrdeistref sirol." Mae monitro addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ac mae'n un o'r dangosyddion ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg a nodir yn y Nodyn Cyngor Technegol. Yn hanesyddol, bu bylchau data yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol o ran y dangosydd hwn oherwydd argaeledd data, ond rhagwelir y bydd data ar gael ar gyfer Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol.

3.11 Darperir Canllawiau Ymarfer yn y ddogfen sy'n nodi'r broses ar gyfer ystyried y Gymraeg mewn unrhyw adolygiadau o'r CDLI yn y dyfodol, ond nid yw'r Nodyn Cyngor Technegol diwygiedig, ynddo'i hun, yn effeithio'n uniongyrchol ar y CDLI mabwysiedig.

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2017)

3.12 Yn dilyn gweithrediad Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (Deddf AU), ym mis Mawrth 2016, mae polisi a chanllawiau cynllunio wedi cael eu diweddarau i gefnogi gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru mewn modd cynaliadwy.

3.13 Cyhoeddwyd Nodyn Cyngor Technegol 24 ar yr Amgylchedd Hanesyddol ym mis Mai 2017, gan ddiweddarau Cylchlythrau'r Swyddfa Gymreig oedd wedi dyddio. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn darparu gwybodaeth bellach a chanllawiau cynllunio manwl i adlewyrchu'n llawn sut y dylid ystyried yr amgylchedd hanesyddol trwy'r broses gynllunio.

3.14 Mewn perthynas â chynlluniau datblygu, mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn tynnu sylw at y gofyniad bod rhaid i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad Cynaliadwyedd ystyried yr amgylchedd hanesyddol a defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf sydd wedi'i dynnu o'r cofnod amgylchedd hanesyddol. Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad Cynaliadwyedd ar gyfer y CDLI mabwysiedig yn gosod amcan "i warchod a gwella asedau hanesyddol pwysig" ac mae pedwar dangosydd yn gysylltiedig ag agweddau o'r amgylchedd hanesyddol sy'n rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol.



3.15 Er y bydd angen ystyried y diwygiadau i gyd-destun polisi'r amgylchedd hanesyddol mewn unrhyw adolygiad o'r cynllun datblygu, nid oes goblygiadau uniongyrchol i'r cynllun presennol na'r Adroddiad Monitro Blynyddol gan fod y materion eisoes yn cael sylw trwy'r fframwaith monitro.

Nodyn Cyngor Technegol (TAN 1): Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (2015)

- 3.16** Mae Nodyn Cyngor Technegol 1 'Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai', ynghyd a PCC, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gael cyflenwad tir 5 mlynedd.
- 3.17** Mae'r Cyngor, ynghyd â nifer o randdeiliaid, wedi bod yn llobio nifer yn olynol o Ysgrifenyddion Cabinet Cymru ar y ffordd y mae Nodyn Cyngor Technegol 1 yn pennu pa safleoedd sy'n rhan o'r cyflenwad tir, sut y cyfrifir y ffigwr cyflenwad tir a'r pwysoliad a roddir i'r cyflenwad tir 5 mlynedd. O 1 Ebrill 2017, nid oedd gan 19 o'r 25 Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru gyflenwad tir 5 mlynedd, sy'n fater o bryder sylweddol. Mae trafodaeth bellach ar y mater hwn wedi'i gynnwys yn Adran 8 o'r adroddiad hwn.
- 3.18** Mae paragraff 6.2 o Nodyn Cyngor Technegol 1 yn datgan: "*dylai ffigur y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai hefyd gael ei drin fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer tai. Pan fo'r astudiaeth gyfredol yn dangos bod y cyflenwad tir yn llai na'r cyflenwad 5 mlynedd ofynnol, neu le nad oedd modd i'r awdurdod cynllunio lleol gynnal astudiaeth..., dylid rhoi pwyslais sylweddol ar yr angen i gynyddu'r cyflenwad wrth ddelio*

â cheisiadau cynllunio os yw'r datblygiad fel arall yn cydymffurfio â'r cynllun datblygu a pholisïau cynllunio cenedlaethol."

- 3.19** Yn dilyn pryderon a godwyd gan randdeiliaid, ynghyd â chynnydd yn nifer y ceisiadau hapfasnachol ar gyfer tai sy'n cael eu cyflwyno mewn rhannau o Gymru, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar ar ddatgymhwyso Paragraff 6.2. Dilynwyd hyn gan lythyr 'Annwyl Brif Swyddogion Cynllunio' ar 18 Gorffennaf 2018, a oedd yn cadarnhau na fydd paragraff 6.2 y Nodyn Cyngor Technegol bellach yn gymwys o'r dyddiad hwnnw. Mae'r llythyr yn nodi mai "*mater i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau fydd penderfynu ar faint o bwysoliad i'w briodoli i'r angen i gynyddu'r cyflenwad o dir ar gyfer tai pan nad oes gan Awdurdod Cynllunio Lleol ddigon o dir ar gyfer tai."*
- 3.20** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi galwad am dystiolaeth ar 'Ddarparu tai drwy'r system gynllunio', a fydd yn ystyried ystod o faterion, gan gynnwys y pryderon ehangach ynghylch cyfrifo'r cyflenwad tir 5 mlynedd.

Bargen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

- 3.21** Ar 17 Mehefin 2015 cytunodd y Cabinet i gefnogi'r broses o ddatblygu cynllun ar gyfer y Fargen Ddinesig, gyda'r deg awdurdod lleol yn cyfrannu at gost gwaith ymchwil a gwaith cynllunio ariannol. Ym mis Chwefror 2016 cytunodd yr aelodau y dylai'r awdurdod (drwy'r Arweinydd) lofnodi'n ffurfiol ymrwymiad i gymryd rhan ym menter y Fargen Ddinesig. O ganlyniad, ar 15 Mawrth 2016 cafodd cytundeb y Fargen Ddinesig ei lofnodi gan Arweinwyr deg awdurdod lleol y ranbarth, Prif Weinidog Cymru a Phrif Ysgrifennydd

y Trysorlys. Mae'r Fargen Ddinesig yn egluro'r dull gweithredu trawsnewidiol y bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ei ddefnyddio i sicrhau maint a natur y buddsoddiad y mae ei angen i gefnogi cynlluniau'r ardal ar gyfer twf.

3.22 Ym Mehefin 2016 gofynnwyd i'r Comisiwn Twf a Chystadleurwydd i edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer twf economaidd cynhwysol a chystadleuol ar draws y brifddinas-ranbarth. Cynhaliodd y Comisiwn adolygiad trylwyr o economi Prifddinas Ranbarth Caerdydd er mwyn darparu argymhellion ar gyfer datblygu hirdymor cynaliadwy i'r brifddinas-ranbarth. Cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad fis Rhagfyr 2016. Roedd yr Adroddiad yn cynnwys 13 o argymhellion wedi eu seilio ar themâu penodol, gydag Argymhelliad 8 yn ymwneud â Datblygu Gofodol Strategol.

Mae Argymhelliad 8 yn nodi:

"Dylai Rhanbarth Prifddinas Caerdydd ddatblygu persbectif gofodol i gydredeg â'i strategaeth economaidd. Bydd angen amserlen glir ar hyn i gyflwyno Cynllun Datblygu tymor hirach sy'n cydredeg â'r Cynllun Datblygu Economaidd, yn helpu i wireddu amcanion ynghylch gwella trafnidiaeth, cymeriad gofodol y rhanbarth yn y dyfodol, tai a defnydd tir, ac yn amlinellu sut y bydd y cyhoedd yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Yn y cyfamser, dylid datblygu Gweledigaeth Strategaeth fel cam tymor byr."

3.23 Gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf tuag at gyflawni'r argymhelliad hwn. Ar 29^{ain} Ionawr 2018, cytunodd Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd y dylai'r gwaith gychwyn ar Gynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth. Mae gwaith yn mynd rhagddo

ar hyn o bryd i sicrhau cytundeb ar y weithdrefn lywodraethu, yr awdurdod cyfrifol, y ffin ar gyfer yr ardal gynllunio strategol a'r cwmpas, y cynnwys, yr amserlen a'r adnoddau ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol. Rhagwelir y bydd pob awdurdod lleol yn adrodd i'w Cynghorau llawn briodol yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol hon i geisio cytundeb i symud ymlaen gyda'r Cynllun Datblygu Strategol.

Llythrau Ysgrifennydd y Cabinet ar Gynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Datblygu Strategol

3.24 Ym mis Rhagfyr 2017, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig at nifer o Awdurdodau Lleol yng Nghymru gyda dyddiadau diweddu 2021 ar gyfer y CDLLau mabwysiedig presennol, gan eu gwahodd i baratoi CDLI ar y cyd gydag awdurdodau cyfagos. Nodwyd Caerffili fel rhan o ranbarth gorllewin De-ddwyrain Cymru, ynghyd â RhCT a Phen-y-bont ar Ogwr.

3.25 Mewn ymateb i'r llythyr hwn, mae'r Arweinydd wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet i'w hysbysu bod Caerffili wedi ymrwymo i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth, gan ganolbwyntio adnoddau ar fynd i'r afael â materion strategol. Nodwyd yn y llythyr bod Caerffili yn bwriadu symud ymlaen gyda'r gwaith o lunio CDLI ysgafn ar y cyd â'r Cynllun Datblygu Strategol, gan y bydd hyn yn sicrhau bod polisiau clir y cynllun yn asio gyda'r Cynllun Datblygu Strategol a chyda dyheadau polisi Cabinet ar y Cyd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

3.26 Anfonwyd llythyr ychwanegol gan Ysgrifennydd y Cabinet i holl awdurdodau De Cymru yn ymwneud â chynnydd ar Gynllun Datblygu Strategol ar gyfer Dinas-

Ranbarth Caerdydd. Trafodir y sefyllfa bresennol o ran y Cynllun Datblygu Strategol o ran y Fargen Ddinesig uchod.

Diwygio Llywodraeth Leol

3.27 Yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2017, cyfeiriwyd at gyhoeddi'r Papur ar Ddiwygio Llywodraeth Leol arfaethedig fel mater oedd yn debygol o ddylanwadu ar gyfeiriad cynllunio strategol yn y dyfodol. Cyhoeddwyd Papur Gwyrdd ar 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl' ym mis Mawrth 2018. Gofynnodd y Papur Gwyrdd am farn ar ad-drefnu awdurdodau lleol yng Nghymru trwy roi tri dewis gerbron:

- **Opsiwn 1** - Cyfuno Gwirfoddol erbyn 2022;
- **Opsiwn 2** - Ymagwedd raddol gyda mabwysiadwyr cynnar yn cyfuno erbyn 2022 a'r holl awdurdodau eraill erbyn 2026; neu
- **Opsiwn 3** - Un rhaglen uno gynhwysfawr erbyn 2022.

3.28 Cynigiodd y Papur Gwyrdd uno Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyda Chyngor Dinas Casnewydd. Pe bai'r uno hwn yn mynd rhagddo, byddai'n arwain at oblygiadau sylweddol ar gyfer paratoi'r cynllun datblygu ar y lefel leol oherwydd y gwahaniaethau yn ystod cyfnod y cynllun a natur dwy ardal ddaearyddol wahanol iawn.

3.29 Cododd CBS Caerffili wrthwynebiad i'r cynigion, gan ddadlau y byddai cadw Caerffili fel Awdurdod annibynnol yn darparu'r canlyniad gorau i'w gymunedau.

3.30 Ym mis Gorffennaf 2018, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth

Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ddatganiad i Gyfarfod Llawn i'r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi, yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, na fyddai cyfuniadau gorfodol ond y byddai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno yn 2019 i alluogi cyfuniadau gwirfoddol i fynd rhagddynt. Goblygiad hyn ar gyfer paratoi'r cynllun datblygu yn y dyfodol yw, gan nad yw uno gyda Chasnewydd yn orfodol ar hyn o bryd, na fydd gofyn ychwaith i baratoi CDLI ar y cyd gyda Chasnewydd.

I Gloi

3.31 Er bod nifer o newidiadau i ddeddfwriaeth a chyfarwyddiadau ers Adroddiad Monitro Blynyddol 2017, nid oes yr un o'r newidiadau yn effeithio yn uniongyrchol ar weithredu'r CDLI Mabwysiedig. O ganlyniad nid oes unrhyw oblygiadau sylweddol yn deillio o'r newid yn yr amgylchiadau i'r CDLI Mabwysiedig.

3.32 O ran paratoi cynllun datblygu yn y dyfodol, bu cynnydd sylweddol ar y Cynllun Datblygu Strategol, gyda chytundeb gan y Cabinet Rhanbarthol i gychwyn paratoi ynghy â'r bwriad i gael cymeradwyaeth gan bob Cyngor erbyn diwedd y cyfnod monitro nesaf. Bydd hyn yn llywio'r argymhellion ar gyfer Adroddiad Monitro Blynyddol eleni.

4. Gwaith monitro'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad Cynaliadwyed

4.1 Caiff canlyniadau proses fonitro'r Asesiad Amgylcheddol Strategol eu hegluro yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. Dylid nodi mai'r cyfnod monitro ar gyfer yr Asesiad Monitro Blynyddol yw 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018, a chaiff canfyddiadau'r asesiad eu cynnwys yn y golofn 2018.

Gwaith monitro'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol – canlyniadau 2018

4.2 Bydd canfyddiadau'r gwaith monitro sy'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn newid o flwyddyn i flwyddyn oherwydd newidiadau bach sy'n deillio o agweddau anwadal ar ddatblygu ac o ffactorau allanol. O ganlyniad, bydd trosolwg o'r tueddiadau ynghyd â'r darlun cyflawn yn darparu dadansoddiad mwy cynhwysfawr a chadarn o effeithiau'r CDLI nag unrhyw flwyddyn unigol, a fydd i bob pwrpas yn darparu cipolwg yn unig ar unrhyw adeg

4.3 Mae angen ystyried wyth mlynedd o ganlyniadau Adroddiadau Monitro Blynyddol yn yr adran hon, sef canlyniadau adroddiad 'ymarfer' 2011, canlyniadau Adroddiadau Monitro Blynyddol 2012, 2013, 2014, 2015, 2016 a 2017 a'r canlyniadau cyfredol ar gyfer 2018. Er bod modd dadansoddi pob set o ganlyniadau drwy ei chymharu â phob set arall, y prif faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw yw newidiadau rhwng canlyniadau 2018 a chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol (sy'n cynrychioli'r newid o'r naill flwyddyn i'r llall) a newidiadau rhwng canlyniadau 2018 a chanlyniadau'r flwyddyn gyntaf

(sy'n cynrychioli'r newid dros gyfnod y cynllun). O ganlyniad, mae'r dadansoddiad yn yr adran hon yn cymharu canlyniadau 2018 â chanlyniadau Adroddiad Monitro Blynyddol 2017, ac yn cymharu canlyniadau 2017 â'r adroddiad 'ymarfer' gwreiddiol gwaelodlin yn 2011.

4.4 Yr ystyriaeth gyntaf yw'r nifer a gofnodwyd ar gyfer pob math o ganlyniad. Mae Tabl 3 isod yn nodi canlyniadau'r gwaith monitro sy'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, yn ôl eu math a'u blwyddyn.

4.5 Yn 2018 cofnodwyd 1 effaith negatif dwbl yn unig a naw negatif sengl.

- **Addysg** - bu gostyngiad sylweddol yn nifer y graddau A-C mewn TGAU. Er bod gostyngiad cyffredinol yng nghyfartaledd Cymru hefyd, ni fu gwelliant sylweddol yn erbyn cyfartaledd Cymru. Ar ben hynny, er bod gwelliant blynyddol o ran sgiliau llythrennedd a rhifedd trigolion wedi bod, mae cyfartaledd Cymru hefyd wedi cynyddu ac ni fu unrhyw gynnydd o ran cau'r bwlch sylweddol rhwng ffigwr Caerffili a chyfartaledd Cymru.

4.6 Mae'r naw effaith negatif sengl yn ymwneud â'r materion canlynol:

- **Tai** - bu cynnydd bychan yn y gymhareb prisiau tai i enillion, gan fod prisiau tai wedi cynyddu ar gyfradd gyflymach na chyflogau.
- **Troseddu** - mae canran y bobl sy'n canfod bod gwelliant mewn cyfraddau troseddu wedi gostwng.
- **Cyflogaeth** - bu gostyngiad bychan yn nifer y bobl oed gweithio mewn cyflogaeth yng Nghaerffili, o'i gymharu â chynnydd ar lefel y DU.

Cymharu Effeithiau								
Canlyniad	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018
XX	3	0	0	0	2	0	2	1
X	4	8	5	2	4	4	5	9
O	2	5	9	7	4	5	4	4
+	6	6	5	9	6	9	6	4
++	2	3	3	4	5	4	3	3
DNA	7	2	1	0	1	0	3	1
NM	1	1	2	3	3	3	2	3

Tabl 3 – Cymharu'r canlyniadau o ran effeithiau dros gyfnod

- **Cyfoeth** - yn bennaf oherwydd cymhariaeth y dangosydd gyda chyfartaledd y DU, sydd hefyd yn amrywio yn flynyddol.
 - **Cadw poblogaeth** - gostyngiad yng nghanran y trigolion sy'n canfod bod ansawdd bywyd wedi cynyddu.
 - **Llifogydd** - yn esgor ar ganlyniadau negatif am y drydedd flwyddyn yn olynol a'r bedwaredd flwyddyn er 2011. Mae hyn yn bennaf oherwydd lleoliad rhannau bychain â chaniatâd i ddatblygu o fewn yr ardal lifogydd, er nad adeiledir ar yr ardaloedd hyn.
 - **Gwarchod pridd** – o ganlyniad i golli tir o bwysigrwydd amaethyddol.
 - **Ynni adnewyddadwy** – mae'r data ar gyfer y mater hwn yn amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn ac yn arwain at ganlyniadau sy'n amrywio'n fawr yn flynyddol. Dyma'r drydedd flwyddyn i'r dangosydd hwn esgor ar ganlyniad negatif.
 - **Asedau materol** - bu gostyngiad bach mewn boddhad â chanol pentrefi a threfi.
- 4.7** Mae 3 canlyniad positif dwbl - gwarchod hunaniaeth ddiwylliannol, asedau hanesyddol a safleoedd daearegol o bwys. Mae 4 canlyniad positif sengl, yn ymwneud â safleoedd cyflogaeth, cyfleusterau hamdden, bioamrywiaeth a thagfeydd. Mae'r canlyniadau positif yn ymwneud ag ystod eang o faterion o'r tri philer cynaliadwyedd (cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol) sy'n golygu bod newidiadau positif ar draws yr amgylchedd yn gyffredinol.
- 4.8** Mae 4 canlyniad niwtral ac mae'r rhain yn ymwneud ag iechyd, llygredd, tirwedd a gwastraff. Nid oedd 4 mater yn cael eu monitro yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn oherwydd diffyg argaeledd gwybodaeth. O'r rhain, nid yw 3 yn cael eu monitro yn barhaol ac 1 lle nad oedd y data ar gael eleni.

4.9 Mae'r canlyniadau cyffredinol yn dangos canlyniad cytbwys – tra bod nifer y canlyniadau negatiff wedi cynyddu ers y llynedd, bellach ceir llai o negatiffau dwbl. Roedd yr holl ddangosyddion a gofnodwyd yn negatiff eleni wedi bod yn negatiff o'r blaen mewn o leiaf un Adroddiad Monitro Blynyddol arall. Nid oes unrhyw un wedi bod yn gyson negatiff ers dechrau cyfnod y cynllun; gwelwyd amrywiad sylweddol dros y blynyddoedd.

4.10 Mae nifer y positifau dwbl wedi aros yn gyson - er bod y dangosyddion sy'n darparu canlyniad positif dwbl wedi newid. Bellach mae nifer lai o ddangosyddion sydd wedi cynhyrchu canlyniad positif sengl, ond mae'r dangosyddion hyn wedi amrywio'n flynyddol. Pan ystyrir dangosyddion positif a niwtral gyda'i gilydd, mae'r rhain yn gyfartal â nifer y dangosyddion negatiff, fyddai'n awgrymu effaith niwtral cyffredinol. Fodd bynnag, asesiad amrwd fyddai asesu effeithiau mewn termau rhifiadol ac mae'r dadansoddiad o'r materion allweddol yn bwysicach.

4.11 Mae ffactorau y tu allan i gylch gorchwyl y cynllun datblygu yn dylanwadu ar lawer o'r effeithiau sy'n negatiff. At hynny, mae rhai dangosyddion yn seiliedig ar gymhariaeth â data Cymru neu ddata'r DU. Er y gallai Caerffili fod wedi gwneud cynnydd o ran ffactorau penodol, os yw data cyfartaledd Cymru/DU wedi cynyddu/gostwng ar gyfradd gyflymach, mewn cymhariaeth, ystyrir bod y dangosydd yn negatiff.

4.12 Mae Tabl 4 isod yn egluro'r tueddiadau a'r modd y mae'r canlyniadau y ceisir eu cyflawni wedi newid dros gyfnod. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig oherwydd ei bod yn dangos a yw'r canlyniadau y

ceisir eu cyflawni yn gyson ynteu a ydynt yn newid yn sylweddol ac, os felly, i ba gyfeiriad. Y prif gyfnodau y mae angen eu hasesu yw'r newidiadau tymor byr ers y llynedd (2017 i 2018) a'r tueddiadau tymor hir a asesir ar sail gwaith monitro'r flwyddyn gyntaf (2011– 2018).

Asesiad o Newidiadau Diweddar (2017 – 2018)

4.13 Mae'r tabl yn nodi'r newidiadau mewn grwpiau, gan ddechrau gyda'r newidiadau negatiff (yn newid i ganlyniad mwy negatiff), newidiadau niwtral wedyn y rhai positif. Fel y gwelir yn glir yn Nhabl 4 mae canlyniadau 2018 yn dangos sefyllfa sefydlog, gyda 9 o'r 25 Nod yn esgor ar, neu yn cynnal, effeithiau positif a 12 Nod yn esgor ar, neu yn cynnal, effeithiau negatiff.

4.14 Mae cyfeiriad y newid eleni yn gogwyddo tuag at effeithiau mwy negatiff. Mae 4 newid positif i negatiff, gydag 1 newid y ffordd arall yn unig, 2 newid niwtral i negatiff a dim ond 1 i positif. Ar y cyfan, mae hyn yn awgrymu canlyniad mwy negatiff eleni o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

4.15 Nodir o ganlyniadau blynyddoedd blaenorol bod amrywiadau sylweddol yn y canlyniadau, gyda thystiolaeth o nifer o ddangosyddion o newid blynyddol o positif i negatiff. Mae cymariaethau blynyddol yn cael eu dylanwadu yn fawr gan ddigwyddiadau unigol ac amrywiadau yn y data, sy'n gallu gogwyddo canlyniadau o un flwyddyn i'r llall.

4.16 Yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2017, adroddwyd bod y newidiadau rhwng 2016 a 2017 yn dangos symudiad amlwg tuag at ganlyniadau mwy negatiff, ond o ystyried yr amrywiadau blynyddol rhwng canlyniadau blynyddol, dylid ystyried canlyniad

Newidiadau o ran effeithiau dros gyfnod									
Newid	2011 - 2012	2012 - 2013	2013 - 2014	2014 - 2015	2015 - 2016	2016 - 2017	2017 - 2018		2011 - 2018
Newidiadau o bositif i niwtral	2	1	1	4	1	2	2		2
Newidiadau o niwtral i negatif	0	0	1	3	0	3	2		1
Newidiadau o bositif i negatif	1	1	1	3	2	2	4		3
Newidiadau o DDAG i negatif	3	1	0	0	0	0	0		3
Newidiadau o bositif dwbl i negatif dwbl	0	0	0	0	0	1	0		0
Dim newid (negatif)	1	3	0	0	2	2	4		3
Newidiadau o DDAG i niwtral	1	0	1	0	0	0	0		1
Newidiadau o negatif i DDAG	0	0	0	0	0	0	0		0
Newidiadau o niwtral i DDAG	0	0	0	0	0	1	0		0
Newidiadau o niwtral i DDAG	0	0	0	1	0	1	0		1
Dim newid (niwtral)	2	4	4	3	5	3	1		0
Newidiadau o DDAG i bositif	3	0	0	0	1	0	1		3
Newidiadau o negatif i niwtral	4	4	1	0	2	2	2		1
Newidiadau o niwtral i bositif	0	0	4	3	2	1	2		1
Newidiadau o negatif i bositif	1	1	3	2	2	1	1		1
Newidiadau o negatif dwbl i bositif dwbl	0	0	0	0	0	0	0		0
Dim newid (positif)	4	7	6	5	8	6	3		2

Tabl 4 – Cymharu Newidiadau o ran effaith dros gyfnod

Adroddiad Monitro Blynyddol 2018 cyn rhoi sylwadau ynghylch a yw'r newid i ganlyniadau mwy negatif yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2017 yn arwyddocaol. Dylid nodi mai dim ond 4 dangosydd allan o 25 sydd wedi bod yn negatif am ddwy flynedd yn olynol (cyfoeth, llifogydd, pridd ac ynni adnewyddadwy), a dim ond 1 dangosydd sydd wedi bod yn negatif am fwy na 3 blynedd yn olynol (llifogydd). Mae hyn yn dangos mai ychydig iawn o feysydd sy'n perfformio'n wael yn gyson. Felly, rhoddir ystyriaeth yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2019 i'r dangosyddion penodol

sydd wedi cael mwy nag 1 flwyddyn o ganlyniadau negatif i ganfod a oes lle i fynd i'r afael â hyn trwy broses y cynllun datblygu, neu a yw'r rhain yn faterion sy'n cael eu dylanwadu gan rymoedd allanol.

Asesu Newidiadau Tymor Hir (2011 - 2016)

4.17 Mae'r gymhariaeth hir dymor yn cynnal y symudiad positif o'r pwynt dechreuol i'r broses fonitro, er bod canlyniadau eleni ychydig yn fwy negatif. Parhaodd tri mater i esgor ar ganlyniadau negatif o'u cymharu â chanlyniadau 2011:

- **Cyrhaeddiad addysgol** - cofnododd yr amcan hwn ganlyniad negatif dwbl yn 2011 a 2018. Fodd bynnag, nid yw wedi darparu canlyniadau negyddol ym mhob blwyddyn fonitro fel yn 2013 a 2014, cofnododd ganlyniad positif, yn ogystal â chanlyniad niwtral yn 2017. Mae'r ddau ddangosydd sy'n llywio'r amcan hwn yn ymwneud â pha mor dda y mae'r dangosydd yn perfformio o'i gymharu â chyfartaledd Cymru. Golyga hyn, hyd yn oed os yw canlyniadau Caerffili yn gwella'n gyson (fel yr oedd yn wir ar gyfer y ddau ddangosydd, ac eithrio mewn perthynas â chanlyniadau arholiadau 2018), bydd ond yn sgorio'n positif os yw lefel y gwelliant yn fwy na'r gwelliant yng nghyfartaledd Cymru.
 - **Cyflogaeth** - mae'r amcan hwn hefyd wedi amrywio'n sylweddol ers 2011, gyda thair blynedd, gan gynnwys y flwyddyn sylfaen a 2018 yn cofnodi canlyniadau negatif, 3 blynedd yn cofnodi canlyniadau positif a chanlyniadau niwtral mewn dwy flynedd. Mae'r ddau ddangosydd sy'n llywio'r amcan hwn yn ystyried y newid mewn lefelau cyflogaeth a sgiliau mewn perthynas â chyfartaleddau'r DU, felly os yw cyfartaledd y DU yn cynyddu ar gyfradd gyflymach na ffigwr Caerffili, bydd yn golygu bod y dangosydd yn methu hyd yn oed os yw'r duedd gyffredinol wedi bod ar gyfer gwella.
 - **Perygl Llifogydd** – Mae canlyniadau'r mater hwn yn amrywio drwy gydol y cynllun o fod yn negatif i positif ac yn ôl eto. Dyma'r bedwaredd flwyddyn i esgor ar ganlyniad negatif. Cymherir y dangosyddion ar gyfer y mater hwn â thargedau ar y lefel isaf posib, ac felly nid oes lle i ystyried anghysondebau a allai godi fesul achos. Ym mhob achos nid yw'r ardal o dir o fewn yr ardal lifogydd yn destun y datblygiad a ganiatawyd, ond mae'n ffurfio gofod ychwanegol ac felly nid oes problemau llifogydd yn codi.
- 4.18** Mae tri mater wedi newid o positif i negatif (tai, troseddu a phridd) er bod pob un ohonynt wedi esgor ar amrediad o ganlyniadau (yn positif ac yn negatif) drwy gydol cyfnod y cynllun, gyda thair a throsedd yn positif at ei gilydd. Eto, byddai angen sefydlu tuedd o ganlyniadau yn y Nodau hyn cyn cyrraedd unrhyw gasgliadau.
- 4.19** Newidiodd tri nod o Ddata Ddim ar Gael (DDG) i negatif (cyfoeth, cydbwysedd poblogaeth ac ynni adnewyddadwy) ac un o niwtral i negatif (asedau materol). Mae'r tri nod DDG i negatif i gyd wedi esgor ar amrediad o ganlyniadau dros gyfnod y cynllun. Mae'r nod asedau materol wedi esgor ar 4 canlyniad niwtral a dau ganlyniad positif yn y blynyddoedd cynt.
- 4.20** I'r gwrthwyneb, mae 2 fater wedi cynnal eu canlyniadau positif:
- **Asedau Hanesyddol** – mae 7 o'r 8 asesiad wedi esgor ar ganlyniadau positif sengl, 3 o'r 8 wedi esgor ar ganlyniadau positif dwbl.
 - **Daeareg** – mae'r mater hwn wedi esgor ar ganlyniadau positif dwbl drwy gydol cyfnod y cynllun.
- 4.21** Yn ychwanegol at yr uchod mae 8 newid positif yn y canlyniadau, 3 yn esgor ar ganlyniadau positif gan na chawsant eu monitro yn y flwyddyn gyntaf, 1 yn newid

o ganlyniadau negatif i rai positif a 3 mater yn esgor ar ganlyniad positif o un niwtral yn wreiddiol.

4.22 Nid oes newidiadau niwtral yn cynnal canlyniadau niwtral, tra bo 1 nod yn esgor ar ganlyniadau niwtral gan na chawsant eu monitro ac 1 canlyniad positif na chafodd ei fonitro oherwydd diffyg argaeledd gwybodaeth.

I Gloi

4.23 Mae'r gwaith monitro eleni sy'n ymwneud â'r Aseiad Amgylcheddol Strategol yn esgor ar ganlyniad cyffredinol sydd ychydig yn fwy negatif na'r flwyddyn flaenorol, ond mae'r rhain ymhell o fod yn ddigon arwyddocaol i ddileu'r effeithiau positif a gafwyd drwy gydol cyfnod y cynllun. Mae'r canlyniadau sydd ychydig yn negatif yn asesiad eleni yn adlewyrchu'r canlyniadau yn 2017, ac yn gyffredinol nid oes unrhyw ddangosyddion sydd wedi bod yn negyddol yn gyson ers mabwysiadu'r cynllun. Mae'r darlun ar draws yr holl amcanion yn un o amrywiad sylweddol oherwydd natur benodol i safleoedd rhai

dangosyddion, amgylchiadau allanol a'r ffaith bod llawer o ddangosyddion yn cael eu hystyried yn gymharol â chyfartaleddau cenedlaethol, yn hytrach nag ar sail tueddiad

4.24 At ei gilydd, mae canlyniadau 2018 yn awgrymu rhagolwg ychydig yn fwy negatif na chanlyniadau 2017, ond nid yw hyn wedi erydu'r effeithiau positif sylweddol sydd wedi digwydd ers 2011.



5. Monitro Polisiâu'r CDLI

- 5.1** Arweiniodd yr ail Adroddiad Monitro Blynyddol, a oedd yn ymdrin â'r cyfnod 2012-13, at adolygiad o'r cynllun. O ganlyniad, dechreuodd yr adolygiad o'r Cynllun Mabwysiedig yn 2013, cyhoeddwyd y Strategaeth a Ffefrir a dogfennau Fersiwn Adneuo'r CDLI Newydd ac ymgynghorwyd yn eu cylch. Yn ystod cyfarfod y Cyngor Llawn ar 19 Gorffennaf 2016, penderfynodd y Cyngor dynnu'r CDLI Newydd yn ôl (yn amodol ar gael cymeradwyaeth Weinidogol) a gofyn am gymorth i baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gynnar. Felly, nes y bydd cynllun newydd wedi'i baratoi, bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r CDLI Mabwysiedig i benderfynu ynghylch y defnydd a wneir o dir ac adeiladau yn y fwrdeistref sirol yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, mae'n bwysig deall pa bolisiau sy'n effeithiol a pha rai sy'n aneffeithiol.
- 5.2** Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o ganlyniadau'r ymarfer monitro polisiâu. Mae'n rhoi crynodeb o'r polisiâu sydd wedi cyrraedd y trothwy ac asesiad byr o'r mater. Caiff argymhelliad ynghylch gweithredu ar gyfer pob polisi sydd wedi cyrraedd y trothwy ei egluro yn Atodiad 3. Bydd Pennod 8 yn ystyried goblygiadau'r canlyniadau hynny a bydd Pennod 9 yn argymhell pa gamau gweithredu y dylai'r Cyngor eu cymryd, os oes angen.
- 5.3** Caiff y wybodaeth ystadegol sy'n ymwneud â phob un o'r dangosyddion a'r Ffactorau ei hegluro yn Nhablau Cefndir yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Nid yw'r tablau hynny'n rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol, ac o ganlyniad ni chânt eu cynnwys ynddo. Caiff y polisiâu strategol eu hystyried ar

sail y fframwaith monitro er mwyn gweld a oes unrhyw bolisiau'n methu â chael eu gweithredu'n unol â'r strategaeth ddatblygu. Ceir crynodeb o'r canlyniadau ar gyfer pob polisi yn Nhabl 5 isod:

- 5.4** Mae'n parhau i fod yn wir nad ydy cyfran sylweddol o'r polisiâu strategol yn cael eu gweithredu yn ôl y disgwyl. Nodwyd nad ydy 9 o'r 22 polisi yn cael eu gweithredu fel y disgwylid ond nad oes angen gweithredu arnynt tra bo 2 bolisi, (SP14 Gofynion o Ran Tai a SP15 Targed Tai Fforddiadwy), wedi nodi materion sy'n gofyn am weithredu er mwyn mynd i'r afael â nhw. Mae'r 11 polisi arall yn cael eu gweithredu yn unol â'r strategaeth gyffredinol.
- 5.5** Er nad oes angen mesurau ymyrraeth ar fwyafrif helaeth y polisiâu, mae'r ffaith nad ydy hanner y polisiâu yn cael eu gweithredu yn ôl y disgwyl yn codi pryderon ynghylch gweithredu'r cynllun strategol yn y dyfodol. Caiff y broblem hon, ynghyd â'r broblem ynghylch methiant y polisiâu tai, eu hystyried yn llawn ym Mhennod 8.

Cyflawni Polisiâu Strategol

Polisiâu Strategol		Perfformiad
SP1	Datblygu Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd	
SP2	Datblygu'r Coridor Cysylltiadau Gogleddol	
SP3	Datblygu'r Coridor Cysylltiadau Deheuol	
SP4	Strategaeth aneddiadau	
SP5	Terfynau aneddiadau	
SP6	Creu lleoedd	
SP7	Rhwymedigaethau cynllunio	
SP8	Diogelu mwynau	
SP9	Rheoli gwastraff	
SP10	Gwarchod y dreftadaeth naturiol	
SP11	Cyfleusterau hamdden cefn gwlad	
SP12	Datblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd	
SP13	Canolfan hamdden yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd	
SP14	Holl ofynion o ran tai	
SP15	Targed ar gyfer tai fforddiadwy	
SP16	Rheoli twf cyflogaeth	
SP17	Hybu datblygu masnachol	
SP18	Diogelu'r Rhwydwaith Hamdden Strategol	
SP19	Gwelliannau i'r seilwaith trafndiaeth	
SP20	Hierarchaeth ffyrdd	
SP21	Safonau parcio	
SP22	Cyfleusterau cymunedol, hamdden ac addysg	
ALLWEDD		
	Mae'r polisi yn cael ei fodloni neu rhagorir arno. Does dim angen ymyrryd.	
	Nid yw'r polisi yn cyflawni'n ôl y disgwyl, ond mae'n cyflawni yn ddigonol ac nid oes angen cymryd camau i ymyrryd.	
	Nid yw'r polisi yn cyflawni'n ôl y disgwyl a dylid ystyried cymryd camau i ymyrryd.	

Tabl 5 – Perfformiad Polisiâu Strategol

6. Dangosyddion Gorfodol

6.1 Mae'r Rheoliadau CDLI yn mynnu bod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn cynnwys gwybodaeth am ddarparu tai yn y fwrdeistref sirol ers i'r cynllun gael ei fabwysiadu. Yn benodol, mae'r Rheoliadau yn mynnu bod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Y cyflenwad tir ar gyfer tai, a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai sydd ar waith ar hyn o bryd; a
- Nifer yr anheddau net – anheddau fforddiadwy ac anheddau'r farchnad gyffredinol – a adeiladwyd yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol (os oes rhai).

6.2 Yn ogystal, mae'r Rheoliadau yn mynnu bod y wybodaeth yn cael ei darparu ar gyfer y cyfnod y mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn ymwneud ag ef, a'r cyfnod ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu neu'i gymeradwyo yn y lle cyntaf. Caiff y wybodaeth am argaeledd tir ar gyfer tai ei monitro ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a diwedd mis Mawrth bob blwyddyn, drwy'r Gydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Caiff y wybodaeth honno ei nodi yn Atodiad 1 ac mae hefyd wedi'i chynnwys yn y Tabl Dangosyddion Gorfodol sydd yn nogfen y Tablau Cefndir ynghylch monitro'r CDLI.

6.3 Mae Nodyn Cyngor Technegol 1 yn cynnwys gofyniad i fonitro'r cyflenwad pum mlynedd o dir y mae angen i bob awdurdod cynllunio lleol ei gynnal. Caiff y wybodaeth honno hefyd ei nodi yn Atodiad 1 ac mae wedi'i chynnwys yn y Tabl Dangosyddion Gorfodol sydd yn nogfen y Tablau Cefndir ynghylch monitro'r CDLI.

6.4 Mae'r Llawlyfr ar CDLIau: 2il Argraffiad wedi diwygio'r sefyllfa o ran nifer y dangosyddion statudol y mae'n rhaid eu cynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Fodd bynnag, penderfynwyd am resymau'n ymwneud â chysondeb a chymharu y dylai Adroddiad 2016 ac Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol barhau i gynnwys pob un o'r 12 dangosydd gorfodol gwreiddiol. Dyma'r dangosyddion:

- Cyflenwad/Gwaith datblygu tir ar gyfer cyflogaeth – ffigur net (hectarau/metrau sgwâr);
- Lefel y gwaith datblygu, gan gynnwys tai, a ganiateir ar safleoedd dyranedig yn y cynllun datblygu, fel % o ddyraniadau'r cynllun datblygu ac fel % o gyfanswm y gwaith datblygu a ganiateir (hectarau ac unedau);
- Dwysedd, ar gyfartaledd, y gwaith datblygu tai a ganiateir ar safleoedd dyranedig y cynllun datblygu;
- Lefel y gwaith datblygu newydd (hectarau) a ganiateir ar dir a



ddatblygwyd yn flaenorol (gwaith ailddatblygu ac ail-addasu tir llwyd) a fynegir fel % o'r holl waith datblygu a ganiateir;

- Lefel y gwaith datblygu mawr ar gyfer manwerthu, swyddfeydd a gweithgarwch hamdden (metrau sgwâr) a ganiateir yng nghanol trefi, a fynegir fel canran o'r holl waith datblygu mawr a ganiateir (TAN 4);
- Lefel y gwaith datblygu a ganiateir yn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 nad yw'n bodloni holl broffion TAN 15;
- Lefel y tir glas a'r mannau agored a gollir i waith datblygu (hectarau) nas dyrannwyd yn y cynllun datblygu;
- Lefel y capasiti rheoli gwastraff a ganiateir, a fynegir fel % o gyfanswm y capasiti gofynnol, fel y nodir yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol (TAN 21) [heb ei fonitro];
- Graddau'r agregau crai o'r tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, a fynegir fel % o gyfanswm y capasiti gofynnol, fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN);
- Capasiti datblygiadau Ynni Adnewyddadwy (MW) a leolir mewn Ardaloedd Chwilio Strategol yn ôl math (TAN 8) [heb ei fonitro].

6.5 Mae canlyniadau'r dangosyddion hyn wedi'u nodi yn y Tabl Dangosyddion Gorfodol yn nogfen y Tablau Cefndir. Nid oes yn rhaid cael sylwadau ynghylch y dangosyddion hyn.

7. Yr Ardoll Seilwaith Cymunedol

7.1 System o daliadau y gall awdurdodau lleol ddewis eu codi ar sail datblygiadau newydd yn eu hardaloedd yw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Caiff gwahanol gyfraddau eu nodi ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad, yn dibynnu ar hyfywedd pob math o ddatblygiad. Yna, caiff y refeniw a gynhyrchir o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ei ddefnyddio i ariannu seilwaith a fydd yn ategu gwaith datblygu a gynllunnir yn y dyfodol yn y fwrdeistref sirol. Cyflwynwyd yr Ardoll Seilwaith Cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ar 1 Gorffennaf 2014. Mae'n dâl gorfodol sy'n cael ei godi ar sail pob datblygiad newydd sy'n gymwys.

7.2 Mae Rheoliad 62 Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'u diwygiwyd) yn mynnu bod awdurdod sy'n casglu'r ardoll yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch yr Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer pob blwyddyn lle casglwyd derbyniadau'r Ardoll. Mae'n ofynnol i'r adroddiad amlinellu'r canlynol:

- Cyfanswm derbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a ddaeth i la.
- Cyfanswm derbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a wariwyd, gan gynnwys:
 - Y swm a wariwyd ar bob eitem o seilwaith
 - Y swm a drosglwyddwyd i unrhyw Gyngor Lleol (Cyngor Tref neu Gymuned)
 - Y swm sy'n gymwys i'w drosglwyddo i ardaloedd nad yw Cyngor Lleol yn ymdrin â nhw

- Y swm a drosglwyddwyd i drydydd parti er mwyn darparu seilwaith
- Swm derbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a gafodd eu hadennill gan unrhyw Gyngor Lleol

- Cyfanswm derbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a gadwyd ar ddiwedd y flwyddyn yr adroddir yn ei chylch
- Manylion y taliadau seilwaith a dderbyniwyd gan y Cyngor

7.3 O gofio bod y cyfnod adrodd ar gyfer yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yr un fath â chyfnod adrodd yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer y CDLI (1 Ebrill i 31 Mawrth) mae'n gwneud synnwyr i'r Adroddiad Blynyddol ynghylch yr Ardoll Seilwaith Cymunedol gael ei gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer pob blwyddyn. Caiff hwn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ym mis Hydref, yn unol â'r gofynion ar gyfer cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ynghylch yr Ardoll Seilwaith Cymunedol.

7.4 Y disgwyliad ar hyd yr amser oedd na fyddai derbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn ymddangos yn syth ar ôl i'r Ardoll gael ei chyflwyno yn 2014, ac felly y bu. Blwyddyn ariannol 2015/2016 oedd y flwyddyn ariannol gyntaf i'r Cyngor gael taliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.

7.5 Mae Tabl 6 yn cynnwys crynodeb o dderbyniadau a gwariant sy'n ymwneud â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Yn ystod y cyfnod monitro, daeth cyfanswm o £330,754.22 i law'r Cyngor ar ffurf derbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Cafodd cyfanswm o £6,598.11 ei dalu i 6 Chyngor Lleol yn unol â Rheoliadau'r Ardoll

Seilwaith Cymunedol. Yn ogystal, mae £2,082.14 yn cael ei gadw i'w ddefnyddio yn yr ardaloedd hynny o'r fwrdeistref sirol nad yw Cyngorau Lleol yn ymdrin â nhw.

7.6 Mae'r Cyngor wedi sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ystyried a phenderfynu sut i wario derbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ar eitemau seilwaith yn flynyddol. Yn benodol, bydd y gwariant yn digwydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn rhan o ystyriaethau cyllidebol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Felly, nid oes unrhyw wariant wedi digwydd yng nghyswllt derbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol hyd yma. Mae'r Cyngor wedi cytuno â'r holl Gyngorau Lleol y bydd taliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i gymdogaethau'n cael eu gwneud i'r Cyngor Cymuned/Tref berthnasol erbyn 30 Mehefin fan bellaf bob blwyddyn. Cafodd y taliadau perthnasol i'r chwe Chyngor Cymuned/Tref eu cwblhau.

7.7 Yn unol â darpariaethau Rheoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, mae'r Cyngor wedi cymryd £16,537.71 o dderbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ar ffurf ffioedd gweinyddol er mwyn cynorthwyo i dalu'r gost o baratoi a gweithredu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Mae'r ffioedd gweinyddol yn dod i 5% o gyfanswm derbyniadau'r Ardoll ar gyfer y flwyddyn.

7.8 Gellir cadarnhau nad oes unrhyw daliadau seilwaith wedi dod i law yn lle'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ac nad oes unrhyw dderbyniadau'r Ardoll wedi'u trosglwyddo i drydydd parti er mwyn darparu seilwaith. O gofio'r uchod, swm derbyniadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol sy'n weddill ac sydd ar gael i'w wario ar eitemau seilwaith yw £480,136.53.

Ardal Cyngor Lleol	Incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol 2017/2018	Cynghorau Lleol 2017/2018	Y tu hwnt ymdriniaeth CC/CT 2017/2018	Ffioedd Gweinyddol 2017/2018
Cwm Aber	£0.00	£0.00		0.00
Argoed	£0.00	£0.00		0.00
Bargod	£0.00	£0.00		0.00
Bedwas, Tretomos a Machen	£25,106.47	£3,670.35		£1,255.32
Coed Duon	£38,596.86	£5,789.53		£1,929.84
Caerffili	£50,124.71	£6,718.95		£2,506.24
Cwm Darran	£0.00	£0.00		0.00
Draethen	£0.00	£0.00		0.00
Gelligaer	£24,768.80	£3,715.32		£1,238.44
Llanbradach a Phwll-y-pant	£20,461.96	£3,061.79		£1,023.10
Maes-y-cwmwr	£157,614.47	£23,642.17		£,880.72
Nelson	£0.00	£0.00		0.00
Tredegar Newydd	£0.00	£0.00		0.00
Pen-yr-heol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn	£0.00	£0.00		0.00
Rhymni	£0.00	£0.00		0.00
Dwyrain Rhisga	£0.00	£0.00		0.00
Gorllewin Rhisga	£0.00	£0.00		0.00
Y Fan	£0.00	£0.00		0.00
Y tu hwnt i ymdriniaeth Cynghorau Cymuned	£14,080.95		£2,082.14	£704.05
Cyfanswm 2017/18	£330,754.22	£46,598.11	£2,082.14	£16,537.71
Cyfanswm Cronnol	£598,757.65	£82,245.25	£6,437.99	£29,937.89
Cyfanswm Incwm	£330,754.22			
Cyfanswm Gwariant	£112,183.14			
Wedi'i gadw ar gyfer ardaloedd y tu hwnt i ymdriniaeth CC/CT	£6,437.99			
Yr Ardoll Seilwaith Cymunedol sy'n weddill i CBSC	£480,136.53			

Tabl 6: Crynodeb o incwm a gwariant sy'n ymwneud â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol

8. Casgliadau'r Aseiad

- 8.1** Mae Paragraff 2.11.1 PCC Argraffiad 9 yn cyngori:

"Mae gofyn i awdurdod cynllunio lleol gyflwyno adroddiad monitro blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn sy'n amlinellu perfformiad y CDLI a fabwysiadwyd, a'r modd y cafodd ei weithredu, yn ystod y cyfnod blaenorol o 1 Ebrill tan 31 Mawrth y cyfnod blaenorol o 1 Ebrill hyd 31 Mawrth, a chyhoeddi'r Adroddiad. Dylai'r adroddiad monitro blynyddol roi gwybodaeth am y graddau y mae'r amcanion a osodwyd yn y CDLI yn cael eu cyflawni, nodi unrhyw bolisi nad yw'n cael ei weithredu a rhoi'r rhesymau, ynghyd ag unrhyw gamau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu ac unrhyw fwriad i adolygu neu amnewid y CDLI (adran 76 o Ddeddf 2004; Rheoliad CDLlau 37). Dylai nodi unrhyw newidiadau i rannau allweddol o'r cynllun y byddai angen eu hystyried wrth adolygu'r cynllun ac wrth wneud diwygiad posibl iddo."

- 8.2** Mae'r bennod hon yn mynd i'r afael â'r ddau fater cyntaf, gan ystyried canlyniadau'r ymarfer monitro a nodi'r polisiâu nad ydynt yn cael eu gweithredu a'r rhesymau dros hynny. Caiff y ddau fater arall eu trafod ym Mhennod 9 isod, a fydd hefyd yn nodi'r argymhellion sy'n deillio o'r Adroddiad Monitro Blynyddol.

A yw Amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni?

- 8.3** Mae'n bwysig cofio bod yr amcanion a nodwyd yn y CDLI Mabwysiedig yn dangos yr hyn a ddylai gael ei gyflawni erbyn diwedd cyfnod y cynllun. O ganlyniad,

mae'n annhebygol y bydd yr amcanion wedi'u cyflawni erbyn hanner ffordd drwy gyfnod y cynllun. Felly, bydd ystyriaeth i'r mater hwn yn canolbwyntio ar b'un a yw'r polisiâu yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion.

- 8.4** Mae'r CDLI Mabwysiedig yn cynnwys 24 o amcanion sy'n cyfrannu at gyflawni'r naw nod a nodwyd yn y cynllun. Mae'r rhestr lawn o amcanion, a'u perfformiad cymharol, i'w gweld yn Atodiad 4 y ddogfen hon.
- 8.5** O'r 24 o amcanion a nodwyd yn y cynllun, mae 14 yn cael eu cyflawni'n ôl y disgwyl. Mae naw o'r amcanion wedi gwneud cynnydd, ond nid ydynt yn cael eu cyflawni'n ôl y disgwyl yn y strategaeth ddatblygu. Mae'r hinsawdd economaidd wael wedi arwain at ddiwydiant datblygu dirwasgedig, ac o ganlyniad nid yw datblygiadau at ddibenion preswyl, masnachol a chyflogaeth wedi gwneud cynnydd fel y rhagwelwyd yn wreiddiol. Mae hynny wedi esgor ar effeithiau cronol ar y modd y cyflawnir y cynllun, ac o ganlyniad nid yw'r 9 amcan dan sylw'n cael eu cyflawni'n ôl y disgwyl.
- 8.6** Nodwyd nad yw Amcan 9, sy'n ymdrin â darparu tai, wedi'i gyflawni. Er bod bron 50% o'r nifer ragamcanol o unedau wedi'u caniatáu hyd yn hyn, mae'r cynnydd a wneir ychydig ar ei hôl hi oherwydd bod dwy ran o dair o gyfnod y cynllun wedi pasio erbyn hyn. Fel rheol, byddai'r mater hwn wedi cael ei ystyried yn amcan sy'n perfformio ar lefel ambr (mae'n gwneud cynnydd ond nid yw'n cael ei gyflawni'n ôl y disgwyl). Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n fwy cymhleth fyth oherwydd nad oes gan y Cyngor y cyflenwad pum mlynedd o dir

ar gyfer tai, fel sy'n ofynnol. Mae hon yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ynghylch cynigion, lle rhoddwyd pwysiad sylweddol (er bod y safbwynt polisi hwn wedi newid ar ôl Gorffennaf 2018) ac mae wedi arwain yn ddiweddar at ganiatáu nifer o ddatblygiadau preswyl yn dilyn apêl mewn lleoliadau sydd yn mynd yn groes i'r CDLI.

8.7 Byddai'n afrealistig disgwyl i gynllun datblygu gyflawni ei holl amcanion yn gyson ac yn barhaus drwy unrhyw gyfnod, oherwydd bydd ffactorau allanol ac amrywiadau o ran pwysau datblygu'n arwain at eithriadau. O gofio bod yr hinsawdd economaidd wedi dylanwadu ar waith datblygu drwy gydol cyfnod y cynllun (ers iddo gael ei fabwysiadu), nid yw'n syndod nad yw nifer o'r dangosyddion wedi'u cyflawni yn ôl y disgwyl. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith o gyflawni'r amcanion ddigon ar ei hôl hi i olygu na allai sefyllfa economaidd well yn ystod y cyfnod sy'n weddill ei gwneud yn bosibl i rai o'r amcanion, os nad yr amcanion i gyd, gael eu cyflawni yn y pen draw. O ganlyniad, rhaid mai'r trosolwg yw bod cynnydd a wneir o ran y CDLI yn cyflawni ei amcanion. Yr unig eithriad yw amcan 9, lle byddai'n rhaid ystyried camau gweithredu a all wella perfformiad y CDLI o ran yr amcan hwnnw. Caiff y camau gweithredu dan sylw eu trafod ym Mhennod 9.

A oes unrhyw bolisiau nad ydynt yn cael eu gweithredu?

8.8 Mae Tabl 5 ym Mhennod 5 uchod yn amlinellu perfformiad y Polisiau Strategol o ran cyflawni amcanion y CDLI. Cofnodwyd bod unarddeg o'r 22 o Bolisiau Strategol yn cyfrannu mewn modd positif at gyflawni amcanion y CDLI,

ac nid oes angen cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach yng nghyswllt y polisiau hynny.

8.9 Mae unarddeg o Bolisiau Strategol wedi'u nodi yn rhai nad ydynt yn cyflawni amcanion y CDLI yn ôl y disgwyl. Dyma'r polisiau hynny:

● SP3 –Datblygu'r Coridor Cysylltiadau Deheuol

Mae'r strategaeth yn y Coridor Cysylltiadau Deheuol yn ceisio atgyfnerthu'r datblygiad o fewn ffiniau aneddiadau presennol ac, o ganlyniad, roedd 96% o'r safleoedd tai a ddyrannwyd yn yr ardal hon ar safleoedd tir llwyd. Dengys Adroddiad Monitro Blynyddol 2018 ostyngiad yn nifer y tai a gwblhawyd ar safleoedd tir llwyd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Roedd nifer o'r rhai a gwblhawyd yn gysylltiedig â safle tir glas mawr a ddyrannwyd yn y CDLI yn rhinwedd caniatâd cynllunio oedd eisoes yn bodoli ar adeg paratoi'r cynllun. Roedd y gwaith tir glas arall a gwblhawyd ar safleoedd bychain (llai na 5 annedd) a oedd yn safleoedd mewnlenwi o fewn y ffin aneddiadau diffiniedig, sy'n cyd-fynd â nod y strategaeth o atgyfnerthu datblygiad o fewn ffiniau aneddiadau presennol.

Er bod y polisi wedi cyrraedd y trothwy, mae'r ffaith bod y safleoedd tir glas sydd wedi cael eu datblygu wedi bod o fewn ffiniau aneddiadau yn golygu nad yw'r polisi ei hun yn methu. Fodd bynnag, cafwyd dau ddatblygiad mawr nodedig a ganiatawyd yn dilyn apêl ar safleoedd tir glas y tu allan i ffiniau aneddiadau yn Goridor Cysylltiadau Deheuol (Heol Pandy a Hendredenny). Er body safleoedd hyn wedi'u caniatáu ar sail prinder cyflenwad tir 5 mlynedd, os caiff y caniatadau hyn eu gweithredu, mae'n debygol y bydd y polisi hwn yn cyrraedd y trothwy eto mewn blynyddoedd Adroddiad Monitro Blynyddol y dyfodol

● **SP4 – Strategaeth aneddiadau**

Mae'r polisi hwn yn egluro'r hierarchaeth aneddiadau sydd wedi'i seilio ar ddadansoddiad swyddogaethol o aneddiadau ar draws y fwrdeistref sirol. Mae'r fframwaith monitro'n canolbwyntio ar y Prif Drefi oherwydd eu bod yn cynnwys yr ystod ehangaf o ddefnyddiau ac mai nhw yw'r prif ganolfannau manwerthu. Mae pob un o'r pedwar dangosydd ar gyfer y polisi hwn wedi cyrraedd y trothwy, ond am resymau gwahanol.

Mae'r cyntaf yn ymwneud a chyfraddau ymwelwyr ar droed ym Margod, Coed Duon. Bu gostyngiad mewn ymwelwyr ar droed ym mhioeb un o'r tair Prif Dref, ac mae'r cyfraddau ym Margod a Chaerffili yn is na'r trothwy. Fodd bynnag, gellir esbonio hyn oherwydd methiant cownteri mesur niferoedd am gyfnod o chwe wythnos yn ystod y cyfnod monitro o ganlyniad i ailosod offer. At hynny, ym Margod, penderfynwyd cofnodi yn unig mewn un lleoliad yn unig yn hytrach na dau, a fyddai eto wedi lleihau'r ffigurau.

Mae cyfraddau unedau gwag ym Margod yn parhau i fod dros 20%. Er y dylid nodi bod gostyngiad bach wedi bod yn ffigwr yr unedau wag, o'i gymharu â ffigurau 2017. Bu cynnydd bychan yn y cyfraddau unedau gwag yn Ystrad Mynach a Chaerffili dros y cyfnod monitro, er bod y ffigwr o gwmpas 10% yn y ddwy dref, ac felly o fewn ystod monitro derbyniol.

Mae'r trydydd ffactor monitro yn ymwneud â bodlonrwydd trigolion â'u canol trefi. Mae hyn wedi cyrraedd y trothwy yng nghanol tref Caerffili yn unig. Dyma'r bedwaredd flwyddyn y mae wedi cyrraedd y trothwy, ond mae hynny oherwydd y ffaith bod y data yn seiliedig ar arolwg a gynhelir ambell i flwyddyn yn unig a dyma'r bedwaredd flwyddyn heb arolwg newydd.

Roedd yna ddangosydd hefyd wnaeth gyrraedd y trothwy oedd yn ymwneud â chanran yr arian a gaiff ei wario yn y canolfannau manwerthu. Roedd hwn wedi cyrraedd y trothwy yn unig o safbwynt gwariant ar nwyddau nad ydynt yn swmpus. Dylid nodi bod y data ar gyfer y dangosydd hwn yn seiliedig ar arolwg manwerthu a gynhelir o dro i dro yn hytrach na bob blwyddyn. Cyrhaeddodd y polisi'r trothwy am y tro cyntaf yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2015, a oedd yn cynnwys data'r arolwg manwerthu cyntaf a gynhaliwyd ers mabwysiadu'r CDLI. Mae data'r arolwg hwn yn dangos gostyngiad sylweddol o'r lefel flaenorol, ac mae'n golygu bod y dangosydd hwn wedi cyrraedd y trothwy. Dylid nodi bod y sampl a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg hwn yn newid yn sylweddol o'r naill arolwg i'r llall ac y gallai rhywfaint o'r gostyngiad fod wedi digwydd oherwydd nodweddion y samplau perthnasol. Fodd bynnag, os bydd y sefyllfa economaidd yn gwella ac os ceir mwy o fuddsoddi mewn datblygu ym maes gwasanaethau masnachol/manwerthu, nid oes rheswm i amau na fydd gwariant ar nwyddau nad ydynt yn swmpus yn cynyddu i lefelau mwy arferol. Mae canlyniadau eleni a'r rhai a nodir yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2018 yn seiliedig ar yr un data a ddefnyddir yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2015.

Yn gyffredinol, mae'r pedwar dangosydd wedi cyrraedd y trothwy yn ganlyniad i rymoedd y tu hwnt i reolaeth y CDLI a'r diweddarau gwybodaeth gyfyngedig y mae'r canlyniadau'n cael eu cyfrifo ohono. Ni allai'r naill reswm neu'r llall arwain at y casgliad bod y polisi yn methu cael ei gyflenwi

● **SP5 – Ffiniau Anheddau**

Mae polisi SP5 yn gosod y fframwaith polisi ar gyfer dynodi Ffiniau Anheddau sy'n ceisio

diffinio'r ardal y caniateir datblygiadau fel arfer, hybu defnydd llawn ac effeithiol o dir trefol, atal anheddau rhag ymdoddi i'w gilydd a rhwystro datblygiadau amhriodol mewn ardaloedd gwledig.

Dim ond un dangosydd sydd gan y polisi sy'n monitro nifer y ceisiadau ar gyfer datblygiadau trefol (rhai na chânt eu nodi ym Mholisi CW15, maen prawf C) a gaiff eu caniatáu tu allan i ffiniau'r anheddol a ddynodwyd. Dylid nodi bod y trothwy ar gyfer y Dangosydd hwn yn ffigwr absoliwt (0 cais), er mwyn sicrhau nad yw monitro'n dod yn rhy feichus i fod yn effeithiol, ac mae'n rhaid iddo ddigwydd yn gyson am 3 blynedd. Felly mewn gwirionedd, y tro cyntaf i'r polisi hwn gyrraedd y trothwy, fel nawr, mae'r dangosydd wedi rhagori lefel y trothwy dros y ddwy flynedd flaenorol hefyd. Felly mae cyrraedd lefel trothwy'r Dangosydd hwn nawr yn golygu bod angen ystyried canlyniadau'r 3 Adroddiad Monitro Blyneddol diwethaf.

Cyrhaeddodd y polisi hwn y trothwy am y tro cyntaf mewn Adroddiad Monitro Blyneddol. fel ffurfiau trefol o ddatblygiad sydd wedi'u lleoli y tu allan i ffiniau aneddiadau. Dangosodd Adroddiad Monitro Blyneddol 2018 gynydd

sylweddol yn nifer y ceisiadau a gymeradwywyd ar gyfer datblygiad trefol y tu allan i aneddiadau, gydag 20 o geisiadau yn cael eu cymeradwyo. Dylid nodi bod 4 o'r ceisiadau hyn yn geisiadau materion a gadwyd yn ol ar gyfer lleiniau unigol ar safle mwy, a 5 cais (4 amlinellol ac 1 llawn) yn gysylltiedig â safle mwy a oedd wedi'u hisrannu i becynnau llai.

Mae'r mwyafrif o'r ceisiadau wedi bod ar gyfer nifer fechan o anheddau ar safleoedd sy'n ffinio â ffin yr anheddiad, ond cafwyd hefyd bedwar cais sylweddol ar safleoedd y tu allan i ffin anheddau a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro – Tir i'r De o'r Glade, Wyllie (16 annedd), Tir yng Nghlwb Golff Oakdale (175 annedd), Tir i'r Gogledd o Heol Hendredenni (260 annedd) a Thir yn Woodfield Park Lane, Penmaen (45 annedd). Cymeradwywyd y tri olaf o'r ceisiadau hyn yn dilyn apêl, gyda'r diffyg cyflenwad o dir 5 mlynedd yn ystyriaeth berthnasol a gafodd lawer o bwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Ystyriwyd bod yr holl safleoedd a gymeradwywyd ar gyfer tai mewn lleoliadau cynaliadwy, gyda chysylltiad da gyda'r anheddiad presennol.

Mae cymeradwyo nifer sylweddol o geisiadau y tu allan i ffiniau'r anheddiad yn destun pryder. Fodd bynnag, mae'r rhain yn gysylltiedig yn bennaf â mater cyflenwi tir ar gyfer tai yn hytrach na methiant ffiniau anheddiad fel mecanwaith i atal datblygiadau amhriodol yng nghefn gwlad.



Ni fydd dad-gymhwysio Paragraff 6.2 o Nodyn Cyngor Technegol 1 bellach yn gofyn am roi "pwysoliad sylweddol" i ddiffyg cyflenwad tir 5 mlynedd wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Dylid nodi bod angen o hyd i ystyried y diffyg cyflenwad tir 5 mlynedd, ond mater i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fydd pennu faint o bwysoliad i'w briodoli i hynny. Felly, ystyrir ceisiadau yn y dyfodol yn ôl eu teilyngodod. Pwrpas y newid hwn oedd lliniaru'r pwysau a brofodd rhai awdurdodau lleol o geisiadau hapfasnachol ar safleoedd y tu allan i ffiniau anheddiad. Efallai y bydd hyn yn dylanwadu ar nifer y ceisiadau y tu allan i'r anheddiad a gymeradwyir yn y dyfodol ac y bydd angen ystyried yn llawn effaith y newid hwn mewn polisi (a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2018) fel rhan o Adroddiad Monitro Blynnyddol 2019.

● **SP10 Gwarchod y dreftadaeth naturiol**

Mae'r polisi hwn yn ceisio gwarchod, cadw a gwella treftadaeth naturiol y fwrdeistref sirol. Caiff y polisi hwn ei fonitro drwy 5 ffactor sy'n ymdrin â gwahanol ddynodiadau ar gyfer ansawdd tirwedd a gwarchod treftadaeth naturiol. Mae dau o'r ffactorau hyn yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r dreftadaeth naturiol, ac mae un ohonynt yn gysylltiedig â cholli tir Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (ni chofnodwyd unrhyw golled) a cholli tir Safle Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur/Gwarchodfa Natur Leol (cofnodwyd 12 o geisiadau). Mae gan bob un o'r ffactorau dan y polisi hwn drothwy uchelgeisiol, sef colli dim ased o gwbl. Mae'r trothwyau hyn yn absoliwt ac nid ydynt yn ystyried natur y datblygiad arfaethedig (byddai ystyriaeth o'r fath bob blwyddyn yn golygu y byddai'r broses fonitro'n rhy feichus). O ganlyniad, bydd unrhyw ddatblygiad yn effeithio ar yr ased ac yn golygu y bydd y polisi'n cyrraedd y trothwy. Roedd y mwyafrif o'r tir oedd yn

cynnwys y ceisiadau a gyrhaeddodd y trothwy yn gysylltiedig ag estyniadau ar gyfer defnydd presennol, neu aildatblygu safle. Mae tri phrif ddatblygiad tai ar SINC's sydd wedi cael caniatâd o fewn y cyfnod monitro - dau gais am faterion a gadwyd yn ôl ar gyfer camau ym Mharc Hawtin (a ddyrannwyd yn y CDLI) a Thir yn Woodfield Park Lane (yn dilyn apêl). Yn y ddau achos, mae camau lliniaru ecolegol wedi'u cymeradwyo.

Mae dau o'r dangosyddion yn mynd i'r afael â dynodiadau tirwedd, mae un yn ymwneud â Thirwedd Lleol o Bwysigrwydd Gweledol, nad yw wedi cyrraedd y trothwy, a'r llall yn ymwneud â SLAau sydd wedi cyrraedd y trothwy. Mae dangosydd y SLA wedi gwireddu canran o 4% yn yr Adroddiad Monitro Blynnyddol hwn, sydd yn is na'r trothwy (15%). Fodd bynnag, pan ystyrir y ceisiadau unigol, maent yn bennaf yn fân ddatblygiadau a datblygiadau deiliaid tai.

● **SP16 - Rheoli Twf Cyflogaeth**

Mae'r polisi hwn yn gwneud darpariaethau ar gyfer twf economaidd yn ystod cyfnod y cynllun, gan nodi cyfanswm y tir ar gyfer cyflogaeth a phennu'r mathau o gyflogaeth ar y safle. Caiff y polisi hwn ei fonitro drwy 4 dangosydd, a dim ond un ohonynt sydd wedi cyrraedd y trothwy, gyda 31.5% o weithwyr mewn cyflogaeth rhan amser, sydd ychydig yn uwch na'r trothwy, sef 30%. Gyda'r dangosyddion eraill gosodwyd y trothwy yn ystod hinsawdd economaidd mwy llewyrchus, ac mae'r rhain yn eu tro wedi cyrraedd y trothwy o ganlyniad i ddirywiad yr economi. Yn gyffredinol mae'r polisi yn cyrraedd y trothwy oherwydd dirywiad yr economi, sydd y tu hwnt i ddylanwad a rheolaeth y CDLI, ac felly ni ystyrir bod y polisi yn methu.

● **SP17 Hyrwyddo Datblygiad Masnachol**

Mae'r polisi hwn yn cael ei fonitro trwy dri ffactor, gyda dau ohonynt wedi cyrraedd y trothwy. Mae'r cyntaf yn ymwneud â nifer y datblygiadau

masnachol/manwerthu a ganiateir y tu allan i Ffiniau'r Prif Ganol Trefi. Mae hwn yn Ffactor arall sydd â lefel trothwy uchelgeisiol o ddim. Dylid nodi bod yr hierarchaeth datblygu manwerthu yn caniatáu darparu manwerthu lleol yn y rhan fwyaf o leoliadau ledled y fwrdeistref sirol, ac y byddai'r math hwn o ddatblygiad yn arwain y polisi i gyrraedd y trothwy.

Eleni cymeradwywyd tri chais y tu allan i ffiniau Prif Ganol Trefi - roedd un ar gyfer canolfan chwarae meddal ar ystâd ddiwydiannol, sy'n ddefnydd ategol priodol ar safle cyflogaeth eilaidd. Un arall oedd datblygiad swyddfa B1 ar safle cyflogaeth a ddyrannwyd, sydd eto'n cydfynd â'r polisi. Roedd y trydydd ar gyfer gwerthu nwyddau cyfleustodau a chymhariaeth (defnydd ddosbarth A1) ar barc warws manwerthu sydd wedi'i gyfyngu i nwyddau swmpus. Yn yr achos hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r effaith ar ganol y dref o ganiatáu'r math hwn o ddefnydd mewn lleoliad y tu allan i'r dref. Mae angen ystyried pob cais yn ôl ei deilyngdod ei hun ac nid yw'r ffaith bod un cais o'r math hwn wedi'i ganiatáu yn arwydd bod y polisi yn methu.

Mae'r ail ddangosydd yn ymwneud â rhoi caniatâd ar gyfer defnydd swyddfa Dosbarth B1 o fewn yr Ardaloedd Cyfle Masnachol a nodir ym mhob un o'r prif drefi, Bargod, Coed Duon a Chaerffili. Mae Coed Duon a Chaerffili wedi cyrraedd y trothwy, gan na fu unrhyw ddatblygiad swyddfa B1 o fewn yr ardaloedd diffiniedig gyda 5 mlynedd (Coed Duon) a 3 blynedd (Caerffili). Mae gan yr Ardaloedd Cyfle Masnachol yn y ddwy dref gyfraddau unedau gwag cymharol isel ac mae nifer o ddefnyddiau yn cael eu gwneud ohonynt, er nad ydynt yn ddefnydd swyddfa B1. Bu datblygiadau swyddfa hefyd mewn mannau eraill yn y ddwy dref, sy'n gadarnhaol. Ni ystyrir felly fod diffyg datblygu swyddfa ynddo'i hun yn arwydd o fethiant y polisi.

● **SP18 – Gwarchod y Rhwydwaith Hamdden Strategol**

Mae'r polisi hwn yn ceisio cynnal y rhwydwaith hamdden sydd eisoes yn bodoli, gan ei warchod rhag datblygiadau amhriodol. Caiff hwn ei fonitro drwy ddau Ddangosydd, ac mae un ohonynt wedi cyrraedd y trothwy. Mae'r Dangosydd hwn yn ymwneud â'r nifer o ardaloedd chwarae newydd a ddarparwyd drwy gytundebau S106.

Yn yr un modd â'r dangosyddion eraill, gosodwyd y trothwy yn ystod hinsawdd economaidd fwy llewyrchus, pan oedd gweithgaredd datblygu yn digwydd ar raddfa llawer yn uwch na'r hyn sy'n digwydd nawr. Pan sefydlwyd y trothwy darparwyd nifer o gyfleusterau drwy ymrwymadau S106 a oedd ynghlwm â chaniatâd cynllunio, yn gyffredinol ar y cyd â datblygiadau preswyl. Mae dirywiad yr economi wedi arwain at leihad sylweddol yn lefel y datblygiadau a wneir, yn benodol datblygiadau preswyl. O ganlyniad mae nifer y ceisiadau wedi gostwng ac, oherwydd hynny, mae nifer y cytundebau S106 ac ardaloedd chwarae a ddarparwyd hefyd wedi gostwng. Mae'r gostyngiad yn y ddarpariaeth newydd hon yn adlewyrchu'r amodau economaidd yn hytrach na methiant y polisi.

Caiff hyn ei brofi ymhellach gan y ffaith na chollwyd yr un ardal chwarae ers mabwysiadu'r CDLI ac ychydig iawn o lefydd agored a gollwyd er mwyn datblygu bob blwyddyn. Dengys hyn fod y polisi yn gwarchod y rhwydwaith hamdden strategol.

● **SP19 – Cynlluniau Gwelliannau Trafnidiaeth**

Mae'r dangosydd hwn yn ystyried nifer y cynlluniau a gyflwynwyd mewn perthynas â Pholisi TR5 Cynlluniau Gwelliannau Trafnidiaeth yng Nghoridor Cysylltiadau'r Gogledd. Ni

chyflawnwyd unrhyw un o'r pum cynllun a nodwyd yn y CDLI am gyfnod o 7 mlynedd. Nid yw hyn ynddo'i hun yn fethiant y cynllun, ond mae'n ymwneud â'r adnoddau ariannol cyfyngedig i ariannu cynlluniau. Y cynlluniau sydd wedi'u blaenoriaethu yw'r rheini sydd o fewn y problemau tagfeydd mwyaf sylweddol.

● **SP20 – Hierarchaeth Ffyrdd**

Mae'r polisi hwn yn nodi'r Hierarchaeth Ffyrdd ar gyfer y fwrdeistref sirol. Mae sefydlu hierarchaeth ffyrdd yn hwyluso defnydd effeithiol o'r rhwydwaith o briffyrdd drwy sicrhau bod y traffig yn cael ei sianelu ar y ffyrdd mwyaf addas er mwyn cynnal amodau amgylcheddol, amwynder a diogelwch addas.

Felly, caiff effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y rhwydwaith priffyrdd eu monitro drwy 2 - un yn ymwneud â monitro cysylltiadau ffyrdd sy'n fwy na'r hyn a gynlluniwyd iddynt ddal, hynny yw, maent yn achosi tagfeydd, ac un sy'n ceisio gweld a oes gwelliannau ar y gweill ar gyfer unrhyw rai o'r cysylltiadau sydd â thagfeydd. Mae'r dangosydd olaf wedi cyrraedd y trothwy, gan nad oes gan un o'r 4 o gysylltiadau â thagfeydd gynllun i wella (A469 i'r De o Ffordd Watford).

Mae'r cysylltiad sy'n cyrraedd trothwy'r dangosydd hwn yn ffurfio rhan o'r rhwydwaith strategol o amgylch Caerffili. Er nad oes cynllun i wella'r cysylltiad ei hun, achosir ei broblemau

traffig yn bennaf gan y problemau tagfeydd sy'n effeithio ar Ffordd Osgoi Ogleddol Caerffili. Mae'r CDLI yn dynodi cynlluniau i wella ar draws y Ffordd Osgoi Ogleddol o gylchfan Bont Bedwas i gylchfan Penrhos. Ar ben hynny diogleir tir o dan Bolisi TR9 ar gyfer Ffordd Osgoi De Ddwyrain Caerffili a dylai'r gwelliannau hyn, pan gânt eu gweithredu, gael effaith ganlyniadol ar leihau'r tagfeydd ar y cysylltiad a gyrhaeddodd y trothwy.

Bu cynnydd bychan yn y llif traffig ers y llynedd, pan gyrhaeddodd y dangosydd y trothwy hefyd. Mae'r cysylltiad 10.6% dros lefel ei dagfeydd. Gan fod gwelliannau'n mynd rhagddynt ac wedi'u cynllunio ar rwydwaith priffyrdd Strategol Caerffili, mae'n debyg y bydd tagfeydd yn lleihau'n gyffredinol. Felly, ni ystyrir bod y dangosydd hwn yn cyrraedd dy trothwy yn arwydd bod y polisi'n methu.

Felly, er bod y cysylltiad yn gorlenwi ac nad oes cynllun wedi nodi i'w wella, dylai'r cynlluniau a nodwyd yn y CDLI wella'r tagfeydd hyn ar y cysylltiad. Felly, ni ystyrir bod cyrraedd y trothwy gyda'r dangosydd hwn yn golygu bod y polisi wedi methu.



8.10 Er nad yw'r polisiâu uchod yn cyflawni'r amcanion yn ôl y disgwyl, maent yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion ac mae ffactorau allanol yn effeithio arnynt nad oes gan y Cynllun Mabwysiedig unrhyw reolaeth arnynt. O ganlyniad, nid ystyrir bod y polisiâu hyn yn methu.

8.11 Nodwyd nad yw dau o'r polisiâu yn cael eu gweithredu fel a ragwelwyd, sef: SP14 - Holl ofynion o ran tai, ac SP15 - Targed ar gyfer tai fforddiadwy. Ceir cysylltiad rhwng y polisiâu hyn, oherwydd bydd darparu tai'r farchnad ar safleoedd a nodwyd dan Bolisi SP14 yn darparu tai fforddiadwy i fodloni'r targedau dan Bolisi SP15.

● **SP14 - Holl ofynion o ran tai**

Dylid nodi bod bron 50% o nifer yr unedau a nodwyd ar gyfer cyfnod y cynllun wedi'u cyflawni hyd yn hyn, fodd bynnag, mae hyn yn syrthio'n fyr o ran cyflenwi ar gyfer cyfnod cyfan y cynllun. O'r herwydd, nid yw'r polisi yn darparu tai mor gyflym ag a ragwelwyd. Fodd bynnag, mae angen ystyried y sefyllfa ochr yn ochr â'r ffaith nad oes gan y Fwrdeistref Sirol y cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai a bennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyflenwad 5 mlynedd o dir yn ystyriaeth bwysig yng nghyswllt cynigion datblygu nad ydynt fel arall efallai'n cydymffurfio â'r cynllun datblygu, er nad oes gofyniad mwyach i roi "pwysiad sylweddol" ar gyflenwad tir pum mlynedd.

Mae TAN 1 yn mynnu bod cyflenwad tir ar gyfer tai'n cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r dull gweddilliol yn unig. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r dull gweddilliol yn cael effaith baradocsaidd, sef cyflenwad llai o dir yn ystod blynyddoedd pan fo cyfraddau adeiladu tai wedi bod yn isel, ac mae wedi arwain at sefyllfa lle mae Adroddiad 2017 yn nodi mai dim ond cyflenwad 2.1 mlynedd o dir sydd gan y fwrdeistref sirol.

Er bod y cyflenwad tir a gaiff ei gyfrifo gan ddefnyddio'r dull gweddilliol wedi bod yn gydon o dan y lefel 5 mlynedd ofynnol, bu cynnydd eleni o 1.5 mlynedd i 2.1 mlynedd yn seiliedig ar Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2017 (gyda chynnydd pellach i 2.3 blynedd yn seiliedig ar Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2018 a gwblhawyd yn ddiweddar). Mae hyn yn bennaf oherwydd nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd (gan gynnwys yn dilyn apêl) ar safleoedd ymadael yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Ers 2015, mae'r Cyngor wedi rhoi caniatâd i dros 600 o unedau, a chymeradwywyd 940 pellach yn dilyn apêl. Dylid nodi nad yw'r holl unedau hyn o fewn y cyflenwad tir 5 mlynedd gan y gall yr amserlenni ar gyfer cyflenwi pob uned ar safleoedd mwy ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod 5 mlynedd. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn y cyflenwad tir dros 2 flynedd yr Adroddiadau Monitro Blynyddol diwethaf yn arwydd bod cynnydd yn cael ei wneud wrth fynd i'r afael â'r mater cyflenwad tir isel.

Mae monitro polisi SP14 hefyd yn ystyried y dull cyfraddau adeiladu'r gorffennol o gyfrifo'r cyflenwad tir 5 mlynedd, trwy fesur y gyfradd adeiladu ar gyfartaledd am y 5 mlynedd diwethaf yn erbyn cyfanswm y tir sydd ar gael ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Mae'r dull hwn yn mesur y galw yn erbyn y cyflenwad yn fwy priodol. O ganlyniad i'r cynnydd yn y cyflenwad tir yn dilyn rhoi nifer o ganiatadau cynllunio newydd, ynghyd â chyfraddau adeiladu isel dros y 5 mlynedd diwethaf, mae'r cyflenwad tir o ddefnyddio dull cyfraddau adeiladu'r gorffennol wedi codi o 3.9 mlynedd yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2017 i 6.3 blynedd yn Adroddiad Monitro Blynyddol eleni (gan gynyddu i 8.3 mlynedd yn seiliedig ar Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2018 a gwblhawyd yn ddiweddar). Mae'r elfen hon o'r dangosydd bellach yn uwch na'r dangosydd cyrraedd y trothwy.

Er gwaethaf hyn, mae'r ffaith bod darparu tai ar y cyfan yn sylweddol y tu ôl i ble y dylai fod yn golygu bod y ddarpariaeth tai sydd ei angen i gwrdd â gofynion y cynllun hyd at 2021 yn cael ei gyfaddawdu.

● **SP15 Targed Tai Fforddiadwy**

Mae darparu tai fforddiadwy hefyd yn destun pryder. Ni sicrhawyd unrhyw dai fforddiadwy trwy gytundeb Adran 106 a ddarparwyd yn ystod y cyfnod monitro. O ganlyniad, mae'r holl ddangosyddion ardal benodol (ar wahân i'r ardal darged 0%) wedi cyrraedd y trothwy gan nad oes unrhyw dai fforddiadwy Adran 106 wedi cael eu darparu ar sail ardal benodol.

Cyflenwyd tai fforddiadwy yng Nghaerffili trwy raglenni adeiladu'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eu hunain ac fe welir o Atodiad 1 bod tai fforddiadwy yng Nghyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2017 yn cynnwys dros hanner yr holl waith a gwblhawyd yn y flwyddyn honno, gan ddangos y rôl y mae'r sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ei chwarae yn gyffredinol wrth gyflenwi tai.

Fodd bynnag, mae'r dangosydd hwn yn ystyried yn benodol y tai a gyflenwir drwy'r system gynllunio, ac o'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn dim ond chwarter y targed a nodwyd yn y CDLI sydd wedi'i gyflenwi. Er bod hyn oherwydd amgylchiadau economaidd yn rhan gynharach cyfnod y cynllun, a gafodd effaith ar gyflenwi a hyfywedd tai yn gyffredinol, mae'n parhau i fod yn fater o bryder sylweddol.

9. Argymhellion

9.1 Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r ail bâr o ystyriaethau a nodir ym mharagraff 2.11.1 Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 9, sef:

"...ynghyd ag unrhyw gamau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu ac unrhyw fwiad i adolygu neu amnewid y CDLI (adran 76 o Ddeddf 2004; Rheoliad CDLIau 37). Dylai nodi unrhyw newidiadau i rannau allweddol o'r cynllun y byddai angen eu hystyried wrth adolygu'r cynllun ac wrth wneud diwygiad posibl iddo."

Argymhellion ynghylch camau gweithredu i sicrhau y caiff polisïau sy'n methu eu gweithredu

9.2 Mae proses Adroddiad Monitro Blynyddol 2018 wedi nodi dau bolisi nad ydynt yn cael eu gweithredu fel a ragwelwyd, sef: SP14 – Holl ofynion o ran tai, ac SP15 – Targed ar gyfer tai fforddiadwy, lle mae angen cymryd camau gweithredu, ynghyd ag un amcan nad yw'n cael ei gyflawni, sef Amcan 9 sy'n ceisio "Sicrhau bod amrywiaeth addas a digonol o safleoedd tai ar gael ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol yn y lleoliadau mwyaf addas i ddiwallu anghenion tai pob sector o'r boblogaeth". Mae angen felly ystyried pa gamau y gall y Cyngor eu cymryd i sicrhau bod y polisïau a'r amcan cysylltiedig yn cael eu gweithredu'n well. Mae'r ddau bolisi a'r amcan yn ymwneud â darparu tai, er eu bod yn ymdrin ag agweddau ychydig yn wahanol ar y mater. Mae pob un ohonynt yn methu oherwydd cyfuniad o'r un ffactorau, sef cyfraddau isel ar gyfer adeiladu tai, arferion buddsoddi lle ceir amharodrwydd i gymryd risg, a ffigurau isel iawn ar gyfer y cyflenwad tir ar gyfer tai. O

ganlyniad, mae'n briodol ystyried y ddau bolisi a'r amcan gyda'i gilydd yn hytrach na mynd i'r afael â phob un ohonynt yn unigol.

9.3 Ers yr argyfwng economaidd yn 2008 cafwyd gostyngiad parhaus yn y tai a gyflenwir gan y diwydiant adeiladu tai, ffactor sydd y tu hwnt i ddylanwad y CDLI. Fodd bynnag, yn y cyfnod hwn mae'r CDLI Mabwysiedig wedi llwyddo i ddarparu tai, ac mae ychydig yn llai na hanner gofyniad y CDLI o ran tai wedi'i ddatblygu yn ystod dwy ran o dri chyfnod cyntaf y cynllun. Er bod hynny ychydig y tu ôl i'r gyfradd adeiladu flynyddol a ddisgwylir, nid yw mor bell ar ei hôl hi fel na allai'r sefyllfa ddychwelyd i'r gyfradd a ddisgwylir, o weld newid yn yr hinsawdd economaidd. O ganlyniad, o safbwynt yr hyn a gyflawnwyd hyd yma, ystyrir bod perfformiad y cynllun yn dderbyniol o gofio'r amodau economaidd.

9.4 Y prif ddangosydd sy'n nodi methiant Polisiâu SP 14, SP15 ac Amcan 9 yw'r ffigur ar gyfer y cyflenwad pum mlynedd o dir, a nodir drwy'r Adroddiadau Argaeledd Tir ar gyfer Tai blynyddol. Mae'r ffigur ar gyfer y cyflenwad 5 mlynedd o dir yn ystyriaeth allweddol wrth benderfynu ynghylch cynigion cynllunio, er bod y pwysoliad y dylid ei briodoli iddo wedi lleihau yn dilyn dad-gymhwyso paragraff 6.2 o Nodyn Cyngor Technegol 1 ym mis Gorffennaf 2018.

9.5 Lle nad oes cyflenwad pum mlynedd o dir, mae posibilrwydd o golli apeliadau ar sail y mater yn achos cynigion sydd fel arall yn mynd yn groes i'r cynllun datblygu mabwysiedig. Mae'r sefyllfa hon bellach yn amlygu ei hun yn y fwrdeistref sirol. Yn ychwanegol at yr apeliadau a ganiatawyd mewn blynyddoedd blaenorol, cafodd

tri chynnig ychwanegol eu caniatáu yn ystod y cyfnod monitro, sef Clwb Golff Oakdale, Woodfield Park Lane ym Mhenmaen a Hendredenny. Roedd y tri chynnig hyn yn groes i'r CDLI Mabwysiedig; fodd bynnag, wrth benderfynu ar yr apeliadau hyn, roedd yr Arolygwyr i gyd yn cynnwys diffyg cyflenwad tir pum mlynedd fel ffactor pwysig iawn yn eu penderfyniad i roi caniatâd. Mae rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer ystod o safleoedd tai, gan yr ACLI ac yn dilyn apêl, wedi cynyddu'r cyflenwad tir ar gyfer tai, ond mae yna ddiffyg sylweddol o hyd wrth asesu yn erbyn targedau'r CDLI.

9.6 Er bod y cyflenwad 5 mlynedd o dir yn fater pwysig, ceir nifer o bryderon ynghylch y broses sy'n berthnasol iddo, sy'n gallu dylanwadu'n fawr ar faint o dir sydd ar gael ar gyfer tai. Yn gyntaf mae'r gwaith o gategoreiddio safleoedd, er mwyn gweld pryd y byddant yn cael eu gweithredu, yn eithrio safleoedd o'r cyflenwad 5 mlynedd o dir oherwydd materion megis y ffaith eu bod mewn ardal lai hyfyw neu fod ganddynt gytundeb cyfreithiol heb ei lofnodi o fewn 12 mis i gael caniatâd cynllunio. Gall hynny eithrio safleoedd o'r cyflenwad 5 mlynedd o dir, sydd fel arall yn barod ac ar gael i'w datblygu. Felly, nid yw'r gwaith categoraidd yn nodi argaeledd tir; mae'n fwy o adlewyrchiad o'r galw am dir.

9.7 Yr ail bryder yw'r dull a ddefnyddir i gyfrifo'r ffigur, sef y dull gweddilliol. Mae'r fersiwn ddiwygiedig o DAN 1 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015 yn mynnu bellach bod pob adroddiad yn cyfrifo argaeledd tir trwy'r dull yma yn

unig. Mae'r dull gweddilliol yn ystyried y tir (safleoedd a ddyrannwyd ac a ganiatawyd) a fyddai'n cael ei ddatblygu yn ystod y cyfnod nesaf o 5 mlynedd, ar sail y gyfradd adeiladu flynyddol sy'n ofynnol er mwyn bodloni gofyniad y CDLI yn llawn erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Mae'r dull hwn yn cael effaith baradocsaid, sef bod llai o dir ar gael yn ystod cyfnodau pan fo cyfraddau adeiladu tai yn isel a bod mwy o dir ar gael yn ystod cyfnodau pan fo cyfraddau adeiladu'n uwch.

9.8 Cyn i DAN 1 gael ei ddiwygio, roedd adroddiadau blynyddol ynghylch Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai hefyd yn ystyried argaeledd tir, a gâi ei gyfrifo gan ddefnyddio'r dull sy'n seiliedig ar gyfraddau adeiladu'r gorffennol. Gan fod y dull sy'n seiliedig ar gyfraddau adeiladu'r gorffennol yn defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau adeiladu, yn hytrach na'r lefelau adeiladu rhagamcanol a ddefnyddir yn y dull gweddilliol, gellid dadlau bod y dull sy'n seiliedig ar gyfraddau adeiladu'r gorffennol yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol yn well. Mae ffigwr cyfraddau adeiladu'r gorffennol yn fwy na 5 mlynedd yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol 2012 i 2015 ac unwaith eto eleni mae wedi codi dros 5 yn dilyn cynnydd yn yr argaeledd tir ar gyfer tai a ffurfiau cwblhau blynddol is, lle mae'r dull gweddilliol yn parhau o dan 5 mlynedd. Yn amlwg, mae yna anghysondeb rhwng y ddau ffigur, fodd bynnag, mae'r dull cyfraddau adeiladu'r gorffennol yn adlewyrchiad cywirach o amgylchiadau economaidd presennol. Mae TAN 1 yn dileu'r gallu i ystyried y ddau ddull hyn wrth ystyried y cyflenwad tir, sy'n golygu bod argaeledd tir yn is nag y gallai fod fel arall.

9.9 Ar adeg paratoi'r adroddiad, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi galwad am dystiolaeth ar gyflenwi tai drwy'r system gynllunio, a fydd yn ystyried ystod o faterion gan gynnwys cyfrifo'r cyflenwad tir ar gyfer tai. Mae'r Cyngor yn croesawu'r cyfle i osod y pryderon ynghylch cyfrifo'r cyflenwad tir a gobeithir y bydd hyn yn arwain at ailystyried y fethodoleg yn y dyfodol. Bydd canlyniadau'r adolygiad hwn yn cael eu hystyried fel rhan o Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol.

9.10 Er yr adolygiad uchod, mae angen mynd i'r afael â mater cyflenwad tir ar gyfer tai o hyd. Fel rheol, byddai hynny'n cael ei ystyried drwy adolygu'r cynllun mabwysiedig. Er i'r Cyngor ddechrau adolygu'r Cynllun Mabwysiedig yn 2013, penderfynodd wedyn y dylid tynnu'r cynllun yn ô yn ffurfiol yn Hydref 2016. O ganlyniad, er mwyn cynyddu'r cyflenwad tir ar gyfer tai yn y tymor byr, bydd nifer o ymyriadau neu gamau gweithredu eraill yn ofynnol er mwyn mynd i'r afael â'r mater.

9.11 Yn gyntaf, mae angen ystyried sut y gellir cyflwyno safleoedd a gaiff eu clustnodi ar hyn o bryd yn safleoedd nad oes modd eu datblygu yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd, a sut y gellir eu rhyddhau i'w datblygu. Dyma'r ddau brif fater sy'n atal safleoedd rhag cael eu datblygu: costau adfer safleoedd tir llwyd; a safleoedd sydd mewn lleoliadau anhyfyw. Er y ceir dealltwriaeth a thystiolaeth dda ynghylch costau adfer safleoedd tir llwyd, y farn gyffredinol o ran darparu tai yw na ddylai tai gael eu clustnodi ond mewn ardaloedd lle mae'n hyfyw i'r diwydiant datblygu adeiladu. Dylid nodi, fodd bynnag, bod cynllun datblygu yn adnodd ymyraethol sy'n ymyrryd yn y farchnad er mwyn mynd

i'r afael â phroblemau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae llawer o breswylwyr y fwrdeistref sirol yn byw mewn ardaloedd llai hyfyw, mewn cymunedau sydd dan fygythiad oherwydd diffyg buddsoddi a datblygu. Mae'r cynllun datblygu yn ceisio hybu cyfleoedd newydd sy'n ymwneud â thai a chyflogaeth yn yr ardaloedd hynny, er mwyn cydymffurfio â'r gofyn sydd arno i gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy, oherwydd gall datblygu yn yr ardaloedd hynny atgyfnerthu cymunedau a sicrhau bod gwasanaethau sydd dan fygythiad yn parhau. Fodd bynnag, derbynnir hefyd na fydd datblygu'n digwydd lle nad yw hynny'n hyfyw. Felly, dim ond mewn ardaloedd lle mae cyllid ar gael i bontio'r bwlch o ran hyfywedd y bydd datblygu'n digwydd. Mae'r Cyngor yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru i gyflwyno systemau cyllid grant er mwyn cael gwared â ffactorau sy'n rhwystro'r gwaith o ddatblygu safleoedd tir llwyd priodol, a chynnig cymhellion ar gyfer safleoedd sydd mewn ardaloedd llai hyfyw.

9.12 Yn ogystal, mae'r Cyngor yn rhagweithiol o safbwynt y modd y mae'n ymdrin â datblygu ar ei dir ei hun. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno system tai arloesol ar gyfer rhyddhau cyfleoedd datblygu ar dir mewn perchnogaeth gyhoeddus, ac mae'r safle pilot cyntaf yn Watford Road, Caerffili, bron â'i gwblhau. Bydd y Cyngor, ynghyd â'i bartneriaid, yn defnyddio'r model tai arloesol i ysgogi datblygiad ar safleoedd na fyddai fel arall yn cael eu dwyn ymlaen gan y farchnad yn y tymor byr.

9.13 Ymhellach, mae'r Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gweithredu o fewn y fwrdeistref sirol i nodi safleoedd

annisgwyl a safleoedd bach sy'n addas ar gyfer datblygu tai fforddiadwy.

9.14 Mae'r Cyngor hefyd yn ceisio cynyddu nifer y safleoedd y gellir adeiladu arnynt yn ystod y cyfnod nesaf o 5 mlynedd. Felly mae angen i'r Cyngor fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol roi sylw digonol i'r angen brys i gynyddu'r cyflenwad tir ar gyfer tai (yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol) wrth ystyried cynigion ar gyfer datblygiad preswyl newydd fesul safle. Cydnabyddir y gallai fod rhai safleoedd sy'n dderbyniol o ran telerau cynllunio sy'n groes i'r CDLI Mabwysiedig a allai gyfrannu at y cyflenwad tir ar gyfer tai yn y tymor byr.

9.15 Gan ddefnyddio'r holl fesurau uchod, gallai'r Cyngor wella lefelau cyflawni o ran datblygu tai, y mae'r polisiau a'r amcan dan sylw yn ceisio ei sicrhau, nes y gellir mabwysiadu cynllun newydd i ddisodli'r CDLI Mabwysiedig.

A ddylid adolygu'r Cynllun Mabwysiedig?

9.16 Fel yr amlinellwyd uchod, dechreuodd y cyngor baratoi'r CDLI Newydd yn 2013 ac yn dilyn hynny fe'i tynnwyd yn ôl yn ffurfiol ym mis Hydref 2016, yn dilyn yr ymarfer ymgynghori ar y fersiwn Adneuo. Roedd y penderfyniad i dynnu'r CDLI yn ôl hefyd yn nodi nifer o benderfyniadau eraill, sef:

9.17 Mae trafodaethau cyson rhwng Uwch Aelodau a Swyddogion a Gweinidogion Cymru a'u Swyddogion ynghylch yr angen dybryd am gyllid i adfer tir llwyd.

- Gofyn am gyfarfod brys â Gweinidog Llywodraeth Cymru er mwyn
 - Rhoi gwybod am y bwriad i dynnu Fersiwn Adneuo'r CDLI Newydd yn ôl

- Gofyn am gymorth i baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol ar frys
 - Trafod pwysigrwydd cyllid gan Lywodraeth Cymru i helpu i ryddhau'r safleoedd tir llwyd sy'n weddill ar draws y fwrdeistref sirol
 - Trafod diddymu'r dull gweddilliol o gyfrifo'r cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai, fel y nodir ar hyn o bryd yn TAN 1.
- Gofyn am drafodaethau pellach â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ym Mhrifddinas- Ranbarth Caerdydd ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu Cynllun Datblygu Strategol.

9.18 Ymhellach, sefydlwyd Bwrdd Prosiect Adfywio sy'n cynnwys Aelodau a swyddogion CBSC i ystyried blaenoriaethau adfywio a darparu cyfeiriad strategol i dîm prosiect o swyddogion allweddol. Bydd hyn yn rhoi sylfaen gref ar gyfer manteisio ar gyfleoedd ariannu ar gyfer prosiectau adfywio trwy Fargen Ddinesig a mentrau adfywio eraill megis Tasglu'r Cymoedd a'r Rhaglen Buddsoddi Adfywio wedi'i Dargedu, a all arwain sicrhau arian cyfalaf sylweddol i brosiectau lleol, gan gynnwys cynlluniau tai, yn y dyfodol.

9.19 Yn ychwanegol at lobio Gweinidogion Cymru ynghylch Nodyn Cyngor Technegol 1, bydd ymateb i'r alwad am dystiolaeth ar gyflenwi tai drwy'r system gynllunio yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn mynegi pryderon ynghylch y cyfrifiad cyflenwad tir.

9.20 Gwnaed cynnydd sylweddol mewn perthynas â'r penderfyniad i baratoi Cynllun Datblygu Strategol statudol. Cytunodd y Cabinet Rhanbarthol (y corff sy'n gwneud penderfyniadau am Gytundeb

Dinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd), a gytunwyd ar 29^{ain} o Ionawr 2018 y dylai'r gwaith ddechrau ar Gynllun Datblygu Strategol ar gyfer yr ardal ac mae'r Cabinet Rhanbarthol wedi cytuno ar lwybr i bennu'r awdurdod cyfrifol; swyddog ac adnoddau ariannol; ffin ardal cynllunio strategol; llywodraethiant; amserlenni; cwmpas a chynnwys. Y gobaith yw y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i bob Cyngor yn y dyfodol agos i ofyn am gymeradwyaeth i fwrw ymlaen â'r Cynllun Datblygu Strategol yn ffurfiol.

9.21 Bydd y CDLI Mabwysiedig yn parhau mewn grym tan ddiwedd 2021, ar ôl hynny ni fydd yn weithredol. Gallai diffyg cwmpas cynllun datblygu gael goblygiadau sylweddol i'r fwrdeistref sirol; oherwydd byddai datblygu yn digwydd yn absenoldeb fframwaith polisi cynllunio statudol lleol a strategaeth i ddiffinio defnydd tir. Mae hyn yn debygol o arwain at ddatblygiadau yn y rhannau hynny o'r fwrdeistref sirol sydd â'r pwysau datblygu uchaf. I'r gwrthwyneb, gallai ardaloedd sydd â llai, neu dim, pwysau datblygu gael ychydig o ddatblygiadau, os o gwbl.

9.22 Casgliad Adroddiad Monitro Blynnyddol 2013 oedd y dylid adolygu'r CDLI Mabwysiedig er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg yn y cyflenwad o dir ar gyfer tai yn yr amser hwnnw, a hefyd i adnabod safleoedd newydd ar gyfer ysgolion 21ain Ganrif. Nid yw safbwynt yr Adroddiad Monitro Blynnyddol hwn wedi newid. Yn wir mae'r sefyllfa o ran cyflenwad o dir ar gyfer tai wedi gwaethygu. Dros gyfnod monitro 2017/18, caniatodd yr Arolygiaeth Gynllunio dri chais i ddatblygu tai, (yn caniatáu yn agos at 500 o anheddau newydd), ar safleoedd yn groes i'r CDLI

Mabwysiedig. Er gwaetha'r caniatadau hyn, mae'r cyflenwad tir 5-mlynedd yn parhau i fod yn sylweddol o dan y 5 mlynedd ofynnol ar 2.1 mlynedd yn 2017 gan godi i 2.3 o flynyddoedd yn 2018. Mae diffyg cyflenwad tir 5 mlynedd yn parhau i fod yn ystyriaeth berthnasol wrth bennu cynigion ar gyfer datblygiadau preswyl, er bod llai o bwysau ar hyn nag a fu yn y gorffennol. Hyd nes y bydd ffigwr y cyflenwad o dir ar gyfer tai yn gwella'n sylweddol, mae perygl parhaus y caniateir apeliadau ar gyfer datblygiadau preswyl ar safleoedd sy'n groes i'r CDLI Mabwysiedig (ond sydd fel arall yn dderbyniol yn nhermau cynllunio) yn y dyfodol.

9.23 Mae'r pwysau sydd ar y Cyngor i ail-ddechrau gwaith ar CDLI Newydd yn dwysáu, oherwydd:

- Mae dyletswydd statudol i ddechrau ei adolygu ar ôl pedair blynedd;
- Mae'r cyfnod o amser ers Adroddiad Monitro Blynyddol 2013 yn nodi'r angen i baratoi cynllun newydd;
- Y risg gynyddol na fydd gan y fwrdeistref sirol gwmpas cynllun datblygu ar ôl 2021;
- Yr angen brys i gynyddu'r cyflenwad o dir ar gyfer tai; a
- Y tebygolrwydd o ganiatáu mwy o ddatblygiadau heb eu cynllunio yn dilyn apêl yn y tymor byr.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol gyda CDLI sy'n diweddu yn 2021 yn eu gwahodd i baratoi cynlluniau ar y cyd gydag awdurdodau cyfagos.

9.24 Fodd bynnag, gwnaed cynnydd sylweddol ar y Cynllun Datblygu Strategol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

9.25 Rhagwelir y bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn mynd i'r afael â materion fel twf poblogaeth ac aelwydydd, safleoedd tai a chyflogaeth strategol, trafndiaeth, manwerthu, mwynau a gwastraff. Unwaith y bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn cael ei baratoi ar gyfer y rhanbarth, dim ond y materion nad ydynt yn strategol y bydd yn rhaid i'r CDLI dilynol (CDLI ysgafn) eu cynnwys ac felly bydd yn deneuach ac yn fwy cryno, gan leihau amser paratoi a chostio llai.

9.26 Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn nodi'r strategaeth ar gyfer y rhanbarth, ac mae'n hanfodol bod paratoi CDLI, naill ai'n unigol neu ar y cyd ag awdurdodau cyfagos, yn cael ei wneud yn unol â'r Cynllun Datblygu Strategol. Mae pryder y gallai paratoi CDLI llawn cyn Cynllun Datblygu Strategol wrthdaro â'r strategaeth ranbarthol ar leoliad twf. At hynny, mae pryderon sylweddol ynghylch yr adnoddau sydd ar gael yn y rhanbarth i ddatblygu CDLI, hyd yn oed ar y cyd, a'r Cynllun Datblygu Strategol.

9.27 Ar y sail yma, byddai paratoi CDLI ysgafn yn dilyn paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol yn cynnig yr ateb gorau o ran cyflawni amcanion ranbarthol a defnyddio adnoddau.

9.28 Mae Adroddiad Monitro Blynyddol 2013 a'r rhai dilynol wedi nodi'n glir yr angen i baratoi cynllun newydd cyflawn. Bydd canfyddiadau'r adroddiadau hyn ynghyd â'r sylfaen dystiolaeth wedi'i diweddarau yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer paratoi unrhyw gynlluniau yn y dyfodol, boed hynny yn CDLI Newydd neu'n CDLI ysgafn neu'n rhan o'r Cynllun Datblygu Strategol.

9.29 Mae Adroddiad Monitro Blynyddol 2018 yn dod i'r casgliad canlynol ac yn argymhell y canlynol:

- A1** Dylid parhau i wneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni'r rhan fwyaf o'r Cynllun Datblygu Mabwysiedig, sy'n sicrhau manteision i'r amgylchedd.
- A2** Dylai'r Cyngor barhau i geisio paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol yn gynnar ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.
- A3** Bydd angen i'r Cyngor barhau i fynd i'r afael â'r diffyg yn y cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai drwy weithredu'n rhagweithiol, a fydd yn cynnwys:

- Ystyried cynigion ar gyfer datblygiadau preswyl newydd ar sail eu rhinweddau cynllunio cymharol fesul achos, a rhoi sylw dyledus i'r angen i gynyddu'r cyflenwad o dir ar gyfer tai'n unol â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol;
- Lobio Llywodraeth Cymru i sefydlu systemau ariannu i gynnig cymhellion ar gyfer safleoedd mewn ardaloedd llai hyfyw a hybu'r gwaith o adfer safleoedd tir llwyd sy'n addas i'w datblygu;

- Defnyddio'r model ariannu arloesol i gyflwyno safleoedd sydd â phroblemau hyfywedd, sy'n eiddo i'r Cyngor;
- Lobio Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau i'r broses sy'n ymwneud ag argaeledd tir ar gyfer tai.
- Y Bwrdd Prosiect Adfywio yn nodi cynlluniau y gellid manteisio ar gyfleoedd ariannu ar gyfer cyflawni prosiectau adfywio, gan gynnwys tai.



ATODIAD 2 – Trosolwg o Waith Monitro'n Ymwneud â'r Aseiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad Cynaliadwyedd

Amcan		2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	
Lleihau'r adnoddau y mae pob preswlydd yn eu defnyddio ar gyfartaledd		X	DNA	NM	NM	NM	NM	NM	NM	
Gwella cyflwr tai a sicrhau bod yr ystod o wahanol fathau o dai'n hygyrch er mwyn diwallu anghenion y preswylwyr		+	+	+	+	++	X	+	X	
Lleihau nifer yr achosion o droseddu		+	X	X	+	+	+	+	X	
Gwella cyflawniad addysgol		XX	X	+	+	X	X	O	XX	
Caniatáu cyfle cyfartal i bawb		NM	NM	NM	NM	NM	NM	NM	NM	
Cynyddu canran y bobl o oedran gweithio sydd mewn cyflogaeth		XX	++	O	O	XX	+	+	X	
Cynyddu cyfoeth unigolion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili		DNA	X	X	+	O	O	X	X	
Sicrhau bod ystod ddigonol o safleoedd cyflogaeth ar gael		DNA	X	X	++	O	O	DNA	+	
Gwella iechyd unigolion		XX	X	O	++	O	+	XX	O	
Sicrhau bod poblogaeth y fwrdeistref sirol yn parhau o leiaf ar ei lefelau presennol, a sicrhau strwythur demograffig mwy cytbwys		DNA	+	+	++	X	X	O	X	
Sicrhau bod modd i'r holl breswylwyr gael mynediad yn hawdd i gyfleusterau hamdden		DNA	+	++	+	++	++	++	+	
Lleihau llygredd aer, sŵn, golau ac arogleuon a sicrhau bod ansawdd yr aer yn gwella		+	O	O	X	+	+	XX	O	
Gwarchod y gwerth o ran tirwedd sy'n perthyn i dirweddau pwysicaf y fwrdeistref sirol, a chynnal amgylchedd glân a hygyrch er mwyn annog ymdeimlad mwy helaeth o berthyn		DNA	X	O	O	X	+	++	O	
Gwarchod hunaniaeth ddiwylliannol y fwrdeistref sirol		DNA	+	X	O	+	+	O	++	
Gwarchod a gwella asedau hanesyddol pwysig		+	++	++	O	+	+	+	++	
Gwarchod dyfrhaenau a gwella ansawdd a lefel y dŵr sydd yn ein hafonydd, a lleihau'r dŵr a ddefnyddir		++	O	DNA	O	++	+	DNA	DNA	
Lleihau i'r eithaf nifer y datblygiadau y mae llifogydd yn effeithio arnynt		X	O	O	+	X	X	X	X	
Gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir a lleihau achosion o halogi, a diogelu swm, ansawdd a hydreiddedd pridd		+	X	O	O	XX	O	X	X	
Gwarchod safleoedd pwysig o safbwynt daearegol a gwella eu hygyrchedd		++	++	++	++	++	++	++	++	
Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir a chynyddu'r graddau y caiff deunyddiau eu haildefnyddio		+	+	+	+	DNA	++	+	O	
Gwella bioamrywiaeth y fwrdeistref sirol		O	O	O	+	O	O	X	+	
Lleihau cyfanswm y CO2 a gynhyrchir yn y fwrdeistref sirol bob blwyddyn		X	DNA	X	NM	NM	NM	NM	NM	
Lleihau tagfeydd drwy leihau'r angen i deithio, annog dulliau heblaw'r car o deithio, a gwneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafnidiaeth bresennol		X	O	O	+	+	+	O	+	
Cynyddu cyfran yr ynni a geir o ffynonellau adnewyddadwy		DNA	+	+	X	++	X	X	X	
Gwella perfformiad asedau materol yn y fwrdeistref sirol		O	X	O	O	+	O	+	X	
Allwedd										
XX	Y rhan fwyaf, os nad yr holl ddangosyddion yn methu cyrraedd targedau	+	Cydbwysedd cyffredinol y dangosyddion yn cwrrd â'r targedau			O	Gwrthbwysio elfennau positif a negatif yn gwireddu sefyllfa gytbwys sefydlog	NM	Heb ei fonitro	
X	Cydbwysedd cyffredinol y dangosyddion yn methu cyrraedd targedau	++	Y rhan fwyaf, os nad y cyfan o'r dangosyddion yn cyrraedd y targedau			DNA	Nid oedd modd asesu'r Amcan yn effeithiol			

ATODIAD 3: Polisiâu a gyrhaeddodd y trothwy

Polisi	Mater		Sylw	Ystyriaeth	Camau Gweithredu Gofynnol
SP3	Ffactor 2	Canran cyfanswm datblygiadau tai newydd ar dir llwyd.	Dim ond 72% o'r datblygiad tai newydd oedd ar dir llwyd, a oedd yn is na'r trothwy o 88%.	Bu gostyngiad yn nifer y tai a gwblhawyd ar safleoedd tir llwyd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Roedd nifer o'r rhai a gwblhawyd yn gysylltiedig â safle tir glas mawr a ddyrannwyd yn y CDLI yn rhinwedd caniatâd cynllunio oedd eisoes yn bodoli ar adeg paratoi'r cynllun. Roedd y gwaith tir glas arall a gwblhawyd ar safleoedd bychain (llai na 5 anedd) a oedd yn safleoedd mewnlenni o fewn y ffin aneddiadau diffiniedig, sy'n cyd-fynd â nod y strategaeth o atgyfnerthu datblygiad o fewn ffiniau aneddiadau presennol. Er bod y polisi wedi cyrraedd y trothwy, mae'r ffaith bod y safleoedd tir glas sydd wedi cael eu datblygu wedi bod o fewn ffiniau aneddiadau yn golygu nad yw'r polisi ei hun yn methu. Fodd bynnag, cafwyd dau ddatblygiad mawr nodedig a ganiatwyd yn dilyn apêl ar safleoedd tir glas y tu allan i ffiniau aneddiadau yn Goridor Cysylltiadau Deheuol. Os caiff y caniatadau hyn eu gweithredu, mae'n debygol y bydd y polisi hwn yn cyrraedd y trothwy eto mewn blynyddoedd Adroddiad Monitro Blynyddol y dyfodol	Nid oes angen cymryd camau gweithredu ar hyn o bryd. Bydd angen ystyried y mater ymhellach os bydd Adroddiad Monitro Blynyddol y flwyddyn nesaf hefyd yn cyrraedd y trothwy.
SP4	Ffactor 1	Y cyfraddau unedau gwag yn y 3 prif ganol tref	Bu gostyngiad mewn ymwelwyr ar droed yn y tair Prif Dref. Mae'r cyfraddau ym Margod a Chaerffili yn is na'u targedau.	Mae'r tair prif dref wedi gweld gostyngiad mewn ymwelwyr ar droed. Fodd bynnag, gellir esbonio hyn oherwydd methiant cownteri mesur niferoedd am gyfnod o chwe wythnos yn ystod y cyfnod monitro o ganlyniad i ailosod offer. At hynny, ym Margod, penderfynwyd cofnodi yn unig mewn un lleoliad yn unig yn hytrach na dau, a fyddai eto wedi lleihau'r ffigurau.	Nid oes angen cymryd camau gweithredu pellach.
	Ffactor 2	Y cyfraddau unedau gwag yn y 5 prif ganol tref	Mae cyfraddau unedau gwag ym Margod dros 20% am y 4ydd flwyddyn yn olynol. Dim ond ychydig yn uwch - 20.8%	Mae llawer o waith adfywio o bwys wedi'i wneud ym Margod ac mae'r dref wedi dioddef oherwydd y dirwasgiad. Mae rhagor o waith adfywio ynghyd â gwelliant economaidd yn debygol o wthio Bargoed heibio'r trothwy, ond efallai na fydd hyn yn digwydd ar unwaith. Mae'r gyfradd ym Margod wedi gwella ers y llynedd ac erbyn hyn mae ychydig yn uwch na'r trothwy.	Nid oes angen cymryd camau gweithredu pellach.

Polisi	Mater		Sylw	Ystyriaeth	Camau Gweithredu Gofynnol
SP4	Ffactor 3	Canran y preswylwyr sy'n fodlon â chanol eu tref	Yn achos Caerffili yn unig (y 4edd flwyddyn ond dim adolygiad am 4 blynedd). 3% islaw'r targed.	Caerffili yw'r unig ganol tref a gyraeddodd y trothwy, ac mae hynny'n bendant yn ymwneud â'r diffyg ailddatblygu yng nghanol y dref oherwydd y dirywiad economaidd. Nid yw'r data wedi'i ddiweddarau am 4 blynedd felly mae wedi dyddio bellach.	Nid oes angen cymryd camau gweithredu pellach.
	Ffactor 4	Canran yr arian a gaiff ei wario yng nghanolfannau manwerthu'r fwrdeistref sirol, fel canran o gyfanswm yr arian a gaiff ei wario	Dim ond yn achos nwyddau nad ydynt yn swmpus (4edd flwyddyn ond 4 blynedd ers adolygu'r data). Mae ymhell dan y trothwy.	Mae gwariant mewn canolfannau manwerthu wedi lleihau ym mhob rhan o'r fwrdeistref sirol yn unol â'r dirwasgiad. Mae'r sefyllfa hon wedi'i gwaethygu gan y gwaith adfywio ym Margod a'r diffyg ailddatblygu yng Nghaerffili. Nid yw'r data wedi'i ddiweddarau am 4 blynedd felly mae wedi dyddio bellach. Er y bydd angen i'r mater hwn gael ei fonitro'n agos yn y dyfodol, nid yw eto'n fater y byddai angen adolygu'r cynllun o'i herwydd.	Nid oes angen cymryd camau gweithredu pellach ar hyn o bryd.
SP5	Ffactor 1	Nifer y ceisiadau am ffurfiau trefol o ddatblygiad (fel y diffinnir gan faen prawf C, Polisi CW15) wedi'u lleoli tu allan i ffiniau aneddiadau, naill ai wedi'u cymeradwyo gan CBSC neu eu caniatáu yn dilyn apêl.	Dyma'r ail flwyddyn i'r Ffactor hwn gyrraedd y trothwy. Cyrhaeddodd y trothwy mewn perthynas â'r nifer o geisiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn monitro (20 cais), ac ar drothwy tair blynedd yn olynol lle mae datblygiad trefol y tu allan i ffiniau aneddiadau wedi'i gymeradwyo.	Bu cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau a gymeradwywyd eleni. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod 3 safle mawr wedi cael eu cymeradwyo yn dilyn apêl a hefyd dau ddatblygiad sydd wedi'u rhannu'n lleiniau neu barseli llai o dir lle cyflwynwyd ceisiadau unigol. Bydd y newid yn y safbwynt polisi i wrthod cymhwyso'r "pwysoliad sylweddol" ar ddiffyg cyflenwad tir 5 mlynedd yn newid ystyriaeth y ceisiadau yn y dyfodol, gan o bosib lleihau nifer y ceisiadau y tu allan i aneddiadau a gaiff eu cymeradwyo yn y dyfodol a bydd angen monitro hyn yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol.	Nid oes angen cymryd camau gweithredu pellach. Bydd angen ystyried y mater ymhellach os bydd Adroddiad Monitro Blynyddol y flwyddyn nesaf hefyd yn cyrraedd y trothwy.

Polisi	Mater		Sylw	Ystyriaeth	Camau Gweithredu Gofynnol
SP10	Ffactor 2	Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd sy'n arwain at golli ardal Safle Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur/ Gwarchodfa Natur Leol i waith datblygu	<p>Wedi cyrraedd y trothwy am y bedwaredd flwyddyn yn olynol ond, am ei fod wedi'i seilio ar drothwy cronnus 3 blynedd, mae mewn gwirionedd wedi gostwng am y 6 mlynedd ddiwethaf.</p> <p>Mae nifer y ceisiadau wedi parhau'r un fath a'r llynedd</p>	<p>Mae'r Ffactor hwn, fel llawer arall, wedi'i seilio ar drothwy llwyr nad yw'n cymryd i ystyriaeth o natur y ceisiadau sy'n cael eu caniatáu. Er bod 12 o geisiadau wedi cofnodi colli tir Safleoedd Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur/Gwarchodfa Natur Leol, does dim gwybodaeth i liniaru hyn o ran a wnaeth y ceisiadau achosi mewn gwirionedd unrhyw niwed i'r tir hwn. Mae methiant cyson y ffactor hwn yn dangos nad yw'r polisi'n cael ei gyflawni fel y dymunwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, mewn gwirionedd o'r 29.7ha o dir Safleoedd Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur yr effeithiwyd arno, dim ond 3.4ha a gollwyd o'r newydd (roedd ceisiadau eraill ar safleoedd wedi'u dynodi, a datblygiadau ar raddfa fechan yn gysylltiedig â rhai oedd yn bodoli'n barod). Caniatawyd y golled newydd hon, sy'n gysylltiedig â 2 ddatblygiad tai mawr, ar ôl pwyso a mesur, oherwydd y pwysoliad a roddwyd i'r cyflenwad tir 5 mlynedd, ynghyd â mesurau lliniaru arfaethedig. Mae'n wir felly bod y diffyg tai wedi effeithio ar gyflawni'r polisi hwn, yn hytrach na'r polisi yn methu ohono'i hun. Gall dileu'r gofyniad i roi cryn bwysoliad i'r cyflenwad tir 5 mlynedd ddylanwadu ar y modd y caiff ceisiadau sy'n ymwneud â SINCs eu cydbwysu yn y dyfodol, a bydd angen eu hadolygu yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol.</p>	<p>Nid oes angen cymryd unrhyw gamau gweithredu yn syth, er y bydd angen ystyried y mater ymhellach os bydd y polisi'n cyrraedd y trothwy ac angen camau adferol.</p>

Polisi	Mater		Sylw	Ystyriaeth	Camau Gweithredu Gofynnol
	Ffactor 5	Nifer y ceisiadau mewn Tirweddau Lleol sy'n Weledol Bwysig a wrthodir, fel canran o'r holl geisiadau mewn Tirweddau Lleol sy'n Weledol Bwysig	Ni wnaeth y Ffactor yma gyrraedd y trothwy'r llynedd, ond mae wedi cyrraedd y trothwy mewn blynyddoedd blaenorol. Dim ond 4% o'r ceisiadau a gyflwynwyd yn y Tirweddau Lleol sy'n Weledol Bwysig ar gyfer datblygiad gafodd eu gwrthod.	Dengys yr Adroddiad Monitro Blynyddol 2018 mai dim ond nifer fach o geisiadau a gyflwynwyd mewn Tirweddau Lleol sy'n Weledol Bwysig a wrthodwyd, gyda'r trothwy o dan 15%. Fodd bynnag, pan ystyrir y ceisiadau unigol, maent yn bennaf yn fân ddatblygiadau a datblygiadau deiliaid tai, felly nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod y polisi'n methu.	Nid oes angen cymryd camau gweithredu pellach ar hyn o bryd.
SP14	Ffactor 1	Cyfradd adeiladu blynyddol	Mae'r dangosydd hwn wedi cyrraedd y trothwy am yr ail flwyddyn yn olynol, gan fod y cyfraddau cwblhau ar gyfartaledd o dan 50% o'r gofyniad blynyddol ar gyfartaledd.	Mae canlyniad 2018 ychydig o dan y trothwy o 288 o unedau ar gyfer y Ffactor yma. Er bod y ffigwr tai a gwblhawyd wedi cynyddu o'r llynedd (187 i 284), mae'n fater o bryder bod y niferoedd sydd wedi'u cwblhau yn is na 50% o'r gofyniad blynyddol. Mae lefel isel cwblhau yn ddyledus, yn rhannol, i etifeddiaeth y dirwasgiad economaidd lle mae nifer y ceisiadau tai a gyflwynwyd wedi gostwng yn sylweddol. Erys materion hyfywedd i'w datblygu mewn rhai rhannau o'r Fwrdeistref Sirol.	Mae angen cymryd camau gweithredu i wella'r graddau y caiff tai eu darparu yn gyffredinol.
SP15	Ffactor 1	Niferoedd blynyddol yr unedau tai fforddiadwy a ddarperir drwy'r system gynllunio, fel canran o'r holl unedau tai (ar sail yr unedau a gaiff eu hadeiladu)	Cyrhaeddwyd y trothwy am y 6ed flwyddyn yn olynol ar gyfer yr ardal 10% a'r ardal 25%. Mae'r ffigurau yn is o lawer na'r trothwyon. Mae hefyd wedi cyrraedd y trothwy eleni am yn yr ardal 40%.	Nid yw tai fforddiadwy yn cael eu darparu'n unol â'r cyfraddau gofynnol, ond mae hynny'n ganlyniad i'r ffaith bod cyfraddau adeiladu tai yn isel yn gyffredinol oherwydd yr hinsawdd economaidd. Mae lefelau isel o hyfywedd datblygu hefyd yn effeithio ar lefel y tai fforddiadwy a ddarperir a gallai hynny, ynghyd â gostyngiadau posibl mewn cyllid grant cyfalaf, olygu gostyngiadau pellach yn nifer y tai fforddiadwy a ddarperir.	Mae angen cymryd camau gweithredu i wella'r graddau y caiff tai fforddiadwy eu darparu.

Polisi	Mater		Sylw	Ystyriaeth	Camau Gweithredu Gofynnol
SP15	Factor 2	Cyfartaledd Prisiau Tai (dros y lefel Astudiaeth Hyfywdra 2009)	Wedi cyrraedd y trothwy am yr ail flwyddyn wrth i brisiau tai barhau i gynyddu.	Mae'r Ffactor wedi cyrraedd y trothwy am yr ail dro. Bellach mae bron i £11,000 yn uwch na'r prawf sensitifrwydd mwyaf a ddefnyddir i osod y targedau tai fforddiadwy. Mewn theori, dylai'r cynnydd mewn prisiau tai olygu y dylai'r datblygiad fod yn fwy hyfyw, a thai mwy fforddiadwy yn cael eu darparu, ond mae angen ystyried nifer o ffactorau fesul safle sy'n dylanwadu ar hyn. Yn gyffredinol, mae angen gwella'r ddarpariaeth tai fforddiadwy, a byddai cynnydd yng nghyfartaledd prisiau tai yn cefnogi hyn, yn hytrach na bod yn destun pryder.	Nid oes angen cymryd camau gweithredu pellach ar hyn o bryd.
SP16	Ffactor 3	Nifer y cyflogeion mewn cyflogaeth rhan amser fel canran o gyfanswm y cyflogeion mewn cyflogaeth	Wedi cyrraedd y trothwy am y chweched tro yn olynol,	Mae hyn i bob pwrpas wedi cyrraedd y trothwy bob blwyddyn, heblaw am y flwyddyn gyntaf pan oedd prinder data'n atal monitro hyn. Cafodd y fframwaith monitro ei osod allan cyn i'r economi fynd ar i lawr ac mae'n dangos trothwyon sy'n ymwneud mwy gyda'r hinsawdd economaidd fwy llewyrchus. Y gwaethygu yn yr economi yn bendant yw'r rheswm bod cynnydd yn y ganran o weithwyr rhan amser (gyda llai o gyflogeion llawn amser a chynnydd mewn cyflogeion rhan amser). O ganlyniad, mae'r ffactor sy'n gyrru dros y trothwy yn adlewyrchu'r amodau economaidd sydd ar y cyfan tu allan i reolaeth y cynllun datblygu ac, felly, nid yw'r ffaith fod y ffactor wedi mynd dros y trothwy yn ddangosydd sylweddol bod y polisi'n methu.	Nid oes angen cymryd camau gweithredu pellach ar hyn o bryd.

Polisi	Mater		Sylw	Ystyriaeth	Camau Gweithredu Gofynnol
SP17	Ffactor 2	Nifer y datblygiadau cyflogaeth ym maes gwasanaethau masnachol/ manwerthu a ganiatawyd y tu allan i derfynau'r prif ganol trefi dynodedig	Mae'r dangosydd hwn wedi cyrraedd y trothwy eto ar ôl bwlch yn Adroddiad Monitro Blyneddol 2017.	Eleni cymeradwywyd tri chais y tu allan i ffiniau Prif Ganol Trefi - roedd un ar gyfer canolfan chwarae meddal ar ystad ddiwydiannol, sy'n ddefnydd ategol priodol ar safle cyflogaeth eilaidd. Un arall oedd datblygiad swyddfa B1 ar safle cyflogaeth a ddyrannwyd, sydd eto'n cyd-fynd â'r polisi. Roedd y trydydd ar gyfer gwerthu nwyddau cyfleustodau a chymhariaeth (defnydd ddosbarth A1) ar barc warws manwerthu sydd wedi'i gyfyngu i nwyddau swmpus. Yn yr achos hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r effaith ar ganol y dref o ganiatáu'r math hwn o ddefnydd mewn lleoliad y tu allan i'r dref. Mae angen ystyried pob cais yn ôl ei deilyngdod ei hun ac nid yw'r ffaith bod un cais o'r math hwn wedi'i ganiatáu yn arwydd bod y polisi yn methu.	Nid oes angen cymryd camau gweithredu pellach ar hyn o bryd.
	Ffactor 3	Defnydd cyflogaeth Dosbarth B1 a ganiateir yn unig o fewn Ardaloedd Cyfle Masnachol, fel canran o'r cyfanswm ardal ddynodedig	Mae Coed Duon a Chaerffili wedi cyrraedd y trothwy, gan na fu unrhyw ddatblygiad swyddfa B1 o fewn yr ardaloedd diffiniedig gyda 5 mlynedd (Coed Duon) a 3 blynedd (Caerffili). Dyma'r bumed flwyddyn yn olynol i Gaerffili gyrraedd y trothwy a'r 3edd flwyddyn ar gyfer Coed Duon	Mae'r dangosydd yn ymwneud â rhoi caniatâd ar gyfer defnydd swyddfa Dosbarth B1 o fewn yr Ardaloedd Cyfle Masnachol a nodir ym mhob un o'r prif drefi. Mae Coed Duon a Chaerffili wedi cyrraedd y trothwy. Mae gan yr Ardaloedd Cyfle Masnachol yn y ddwy dref gyfraddau unedau gwag cymharol isel ac mae nifer o ddefnyddiau yn cael eu gwneud ohonynt, er nad ydynt yn ddefnydd swyddfa B1. Bu datblygiadau swyddfa hefyd mewn mannau eraill yn y ddwy dref, sy'n gadarnhaol. Ni ystyrir felly fod diffyg datblygu swyddfa ynddo'i hun yn arwydd o fethiant y polisi.	Nid oes angen cymryd camau gweithredu pellach ar hyn o bryd.

Policy	Issue		Comment	Consideration	Action Required
SP18	Ffactor 2	Nifer y ceisiadau cynllunio sy'n darparu llefydd chwarae ffurfiol newydd trwy gytundebau Adran 106	Wedi cyrraedd y trothwy am y chweched tro yn olynol.	Cafodd y fframwaith monitro ei osod allan pan oedd lefelau datblygiad yn uchel, a gosodwyd lefel trothwy'r Ffactor hwn yn erbyn lefelau uchel o les cynllunio. Ers i'r economi waethygu mae nifer y ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd wedi gostwng yn sylweddol ac, o ganlyniad, digwyddodd gostyngiad hefyd yn niferoedd y cyfleusterau a gafwyd trwy gytundebau Adran 106 ar gyfer y ceisiadau hynny. Felly mae'r Ffactor wedi cyrraedd y trothwy o ganlyniad uniongyrchol i'r dirywiad yn yr economi, a byddai disgwyl i hyn godi eto pan fydd yr economi'n dechrau gwella. Ar y cyfan, mae'r amgylchiadau economaidd tu allan i reolaeth y cynllun datblygu, felly nid yw cyrraedd y trothwy ar gyfer y ffactor yn ddangosydd sylweddol bod y polisi'n methu.	Nid oes angen cymryd camau gweithredu pellach ar hyn o bryd.
SP19	Ffactor 1a	Nifer o Gynlluniau a nodwyd ym Mholisi TR5 a gyflenwyd trwy Ymrwymadau a chytundebau.	Wedi cyrraedd y trothwy am y tro cyntaf.	Mae'r dangosydd hwn yn ystyried nifer y cynlluniau a gyflwynwyd mewn perthynas â Pholisi TR5 Cynlluniau Gwelliannau Trafnidiaeth yng Nghoridor Cysylltiadau'r Gogledd. Ni chyflawnwyd unrhyw un o'r pum cynllun a nodwyd yn y CDLI am gyfnod o 7 mlynedd. Nid yw hyn ynddo'i hun yn fethiant y cynllun, ond mae'n ymwneud â'r adnoddau ariannol cyfyngedig i ariannu cynlluniau. Y cynlluniau sydd wedi'u blaenoriaethu yw'r rheini sydd o fewn y problemau tagfeydd mwyaf sylweddol.	Nid oes angen cymryd camau gweithredu pellach ar hyn o bryd.
SP20	Ffactor 2	Nifer y cysylltiadau wedi'u monitro sydd uwchben lefel CRF ac nad oes gwelliannau wedi'u cynllunio ar eu cyfer	Wedi mynd dros y trothwy am yr ail dro, ond mewn gwirionedd mae wedi mynd dros y trothwy bob blwyddyn ond heb gael ei gofnodi oherwydd bod y trothwy'n gweithredu dros gyfnod 3 blynedd ac nad oedd data ar gael ar gyfer Cynllun Monitro Blyneddol 2014.	Mae pedwar o'r 17 cysylltiad sy'n cael eu monitro yn gweithredu uwchben y capasiti enwol ar gyfer eu dyluniad, ond mae gan 3 o'r cysylltiadau gynigion yn y Cynllun Datblygu Lleol i ateb y mater hwnnw. Nid oes gan un o'r cysylltiadau gynigion ar gyfer ei wella ac felly mae'n cyrraedd y trothwy ar gyfer y polisi. Er nad oes unrhyw gynigion ar gyfer y cysylltiad hwn, mae'r cysylltiad yn rhan o'r tagfeydd traffig sy'n ffurfio ar Ffordd Osgoi Ogleddol Caerffili ac yn debygol o gael budd oddi wrth gynigion y Cynllun Datblygu Lleol i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y ffordd osgoi ogleddol. Gan mai dim ond un o'r gwelliannau sydd wedi digwydd hyd yma, nid yw'n cael ei gredu bod cyrraedd y trothwy gyda'r Ffactor hwn yn ddangosydd sylweddol bod y polisi'n methu.	Nid oes angen cymryd camau gweithredu pellach ar hyn o bryd.

ATODIAD 4: Perfformiad yn erbyn Amcanion y CDLI

Amcan CDLI		Sylwadau	Perfformiad
1	Sicrhau lle i lefelau cynaliadwy o dwf yn y boblogaeth.	Nododd Cyfrifiad 2011 fod y fwrdeistref sirol eisoes yn sicrhau lle i'r lefelau poblogaeth a oedd wedi'u rhagweld ar gyfer diwedd cyfnod y cynllun. Er bod lle wedi'i sicrhau eisoes i lefelau rhagamcanol y boblogaeth, nid yw'r gwaith datblygu cysylltiedig gofynnol er mwyn gwneud yn siŵr bod lle'n cael ei sicrhau yn y modd mwyaf cynaliadwy ar gyfer y boblogaeth dan sylw wedi cael ei gyflenwi yn ôl y disgwyl.	
2	Sicrhau bod gan y fwrdeistref sirol ddigon o fannau agored cyhoeddus hygyrch a digon o fannau gwyrdd naturiol hygyrch.	Mae'r polisïau ar gyfer gwarchod a gwella manau agored a manau gwyrdd naturiol yn ateb eu diben ac mae'r amcan yn cael ei gyflawni.	
3	Sicrhau bod adnoddau naturiol ac adeiledig yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon, gan atal adnoddau cyfyngedig rhag mynd yn ddiwerth yn ddiangen drwy waith datblygu amhriodol.	Mae'r fframwaith polisi yn darparu gwaith datblygu priodol. Er bod polisi SP10 yn codi materion ynghylch datblygu mewn Safleoedd Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur, sy'n safleoedd dynodedig, mae'r gwaith datblygu hwnnw'n gyfyngedig iawn o ran ei faint ac yn dderbyniol yn yr ardaloedd dan sylw. Felly, mae'r amcan yn cael ei gyflawni at ei gilydd.	
4	Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cael cyn lleied o effaith ag sy'n bosibl ar yr amgylchedd.	Mae gwaith monitro'r amgylchedd, sy'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad Cynaliadwyedd, yn dangos bod y cynllun yn esgor ar effeithiau sylweddol sy'n positif yn gyffredinol. Mae polisïau ar gyfer gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol hefyd yn gweithio ac mae'r amcan yn cael ei gyflawni.	
